



Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Police and Crime Commissioner



Cynllun yr Heddlu a Gostwng Trosedd 2017-2021

Cynnwys

- 1 Croeso
- 2 Cyflawniadau
- 4 Taith Heddlu De Cymru
- 5 Plismona De Cymru
- 8 Ein Model Gweithredu ar gyfer y Dyfodol
- 12 Plismona
- 13 Gawl 2015
- 15 Beth mae ein partneriaid yn ei ddweud wrthym
- 16 Beth mae'r cyhoedd yn ei ddweud wrthym
- 17 Gwerthoedd ac Egwyddorion Cyffredinol
- 18 Blaenoriaethau
- 28 Beth yw llwyddiant?
- 29 Cyllid ac Adnoddau Eraill
- 31 Llywodraethu ac Atebolrwydd

Atodiadau

- 33 Atodiad 1: **Rôl y Comisiynydd - Egwyddorion Sylfaenol a Gweledigaeth i Dde Cymru**
- 43 Atodiad 2: **Ymyrryd yn Gynnar ac Atal**
- 48 Atodiad 3: **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**



Croeso

Mae gennyf hyder yn yr arweinyddiaeth, yr uniondeb a'r ymgysylltu agos â'n cymunedau sydd wrth wraidd cymeriad Heddlu De Cymru yn 2015. Mae'n hollbwysig bod y nodweddion hynny yn cael eu cadw wrth i'r Heddlu, sydd eisoes wedi gorfod ymdopi â thoriad o 21% yng Ngrant Canolog yr Heddlu, ymdopi â thoriadau o'r un maint dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid i ni gyd-blethu plismona gweithredol â gwaith dwys gyda phartneriaid i ostwng troseddu a lleihau niwed a galw. Dyna pam rwyf wedi gweithio gyda'r Prif Gwnstabl Peter Vaughan er mwyn sicrhau bod y Cynllun Heddlu a Throseddu hwn – y mae'n ofynnol i mi ei gyhoeddi o dan y gyfraith – yn seiliedig ar y gwerthoedd a'r dyheadau a rannwn (gweler tudalen 17). Ni fyddwn yn dilyn rhai Heddluoedd sydd wedi rhoi'r gorau i blismona yn y gymdogaeth ond byddwn yn gweithio hyd yn oed yn fwy agos gyda phob cymuned a chyda chynghorwyr lleol, y GIG, ysgolion, colegau, Sefydliadau Gwirfoddol a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach er mwyn "crebachu gyda'n gilydd, nid ar wahân". Hoffwn ddiolch i'r Arweinwyr yn y sefydliadau hynny am weithio gyda ni i leihau niwed a galw. Serch hynny, mae'r swyddogion sy'n ein gwasanaethu yn Ne Cymru o dan bwysau beunyddiol dwys – ac mae'n glod mawr iddynt eu bod yn parhau i fod yn ymrwymedig, yn broffesiynol ac yn frwdfrydig, wrth iddynt ymdopi â'r llw o alwadau am gymorth, sy'n mynd ymhell y tu hwnt i drosedd ac anrhefn. Dyna pam mae'r gwerth y mae cymunedau a chynghorwyr yn ei roi ar ein swyddogion a'n swyddogion cymorth cymunedol yn uwch nag erioed. Hoffwn ddiolch i Weinidogion Llywodraeth Cymru am arian i gyflogi 205 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol ac am weithio gyda ni ar nifer o faterion. Nod y cynllun hwn ar ei newydd wedd yw cefnogi plismona gweithredol tra'n sbarduno ein gwaith i atal troseddu, lleihau niwed ac ymyrryd yn gynnar cyn bod pethau'n dechrau mynd o chwith. Rydym yn benderfynol o gadw De Cymru'n Ddiogel hyd yn oed yn ystod cyfnod anodd.



Y Gwir Anrh Alun Michael YH

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Fel Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru rwy'n gyfrifol am gyflawni gweithredol yr heddlu ac rwy'n gweithio'n agos gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn cyflawni ein cenhadaeth i Gadw De Cymru'n Ddiogel. Mae'r Comisiynydd a minnau'n falch iawn o'r gwasanaeth a ddarperir gan Heddlu De Cymru i'w gymunedau, rhywbeth a adlewyrchir yn gynyddol ar lefel genedlaethol drwy arolygiadau annibynnol a'n safonau cyflawni cyson uchel. Rydym yn gweithio'n unol â chyfres o egwyddorion ac rydym yn rhoi pwyslais cynyddol ar ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau niwed a galw. Yn Ne Cymru mae ein plismona wedi canolbwyntio ar egwyddorion gwranddo, deall ac ymateb i'r hyn sydd bwysicaf i'n cymunedau, sef ffocws sy'n dal wrth wraidd ein cenhadaeth wrth i ni ymaddasu at heriau newydd. Drwy weithredu yn y modd hwn, erys ardal De Cymru yn un o'r rhanbarthau mwyaf diogel yn y Deyrnas Unedig i fyw a gweithio ynddi neu ymweld â hi, ac yn rhywle lle gall pobl fyw heb ofn na phryder drostynt hwy'u hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Mae ein cyflawniadau hyd yma wedi creu sylfaen gadarn y gellir adeiladu arni ond rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni ymdrechu bob amser i wella ein gwasanaeth ac ymateb yn effeithiol i alwadau newydd; Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu fydd y sail dros ein hymateb a bydd yn sicrhau ein bod yn parhau i roi gwasanaeth rhagorol i gymunedau De Cymru.




Peter Vaughan QPM

Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru

CYDWEITHIO I GADW DE CYMRU YN DDIOGEL

RYDYM WEDI CYFLAWNI CRYN DIPYN O NODAU CYNILLUN CYNTAF YR HEDDLU A GOSTWNG TROSEDDU, GAN EIN RHOI MEWN SEFYLLFA GADARN I WYNEBU'R HERIAU O'N BLAENAU, TRA'N CYDNABOD BOD LLAWER IAWN O WAITH I'W WNEUD O HYD.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ar y cyd â'u timau a chyda phartneriaid hyd yn hyn:



Parhau i ganolbwyntio ar ddioddefwyr troseddau

Rydym wedi mynd o fod yn un o'r heddluoedd gwaethaf o ran boddhad dioddefwyr i fod yn un o'r rhai gorau yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i wrando ar bobl sydd wedi profi trosedd, gan roi dioddefwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn, a newid y ffordd rydym yn cofnodi troseddau i adlewyrchu hyn. Rydym hefyd wedi lansio gwasanaeth newydd i ddiwallu anghenion dioddefwyr yn well.

Diogelu pobl agored i niwed

Rydym wedi adolygu'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Ne Cymru i fynd i'r afael ag achosion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant ac wedi comisiynu Barnado's i roi help arbenigol ystyriol i'r sawl sydd wedi cael eu cam-drin. Rydym yn cefnogi dioddefwyr troseddau a dargedwyd oherwydd eu hil, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn helpu pobl hyn i deimlo'n ddiogel drwy fynd i'r afael â sgamiau, sy'n broblem gynyddol, gan gynnwys troseddau ar-lein, drwy roi cyngor Get Safe Online ar ein gwefan.



Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched

Mae nodi achosion o gam-drin domestig yn gynnar yn allweddol er mwyn cadw pobl yn ddiogel. Rydym wedi blaenoriaethu mentrau sy'n ein galluogi i gymryd camau gweithredu cadarnhaol, prydlon ac sy'n diwallu anghenion dioddefwyr, yn gwellu diogelwch ac yn dwyn y rhai sy'n cyflawni troseddau i gyfrif. Drwy gydweithio'n llwyddiannus â rhanddeiliaid, gan gynnwys y trydydd sector, y sector iechyd, prifysgolion a landlordiaid, rydym wedi gwella mynediad at gymorth ac mae mentrau fel DRIVE, IRIS a TALK yn dangos ein hymrwymiad i ddioddefwyr a'r ffordd rydym yn herio'r rhai sy'n cyflawni troseddau.

Defnyddio technoleg yn y frwydr yn erbyn trosedd

Rydym yn chwyldroi plismona drwy dechnoleg. Mae Rhaglen 'Fusion' yn fenter gydweithredol rhwng Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent, sy'n helpu'r ddau heddlu i ostwng troseddau, lleihau costau, a darparu gwasanaeth yr heddlu effeithiol ac effeithlon drwy sicrhau bod ein swyddogion yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, gan roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt pan fo ei hangen arnynt.



Datblygu gweithlu mwy cynrychioliadol

Rydym wedi newid ein ffordd o weithredu er mwyn sicrhau bod gweithlu'r dyfodol yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn yn well. Cefnogwn bobl o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) sydd â diddordeb mewn gyrfa gyda ni, gan gynnwys Hyrwyddwyr Datblygu, sy'n rhoi cymorth mentora personol, a digwyddiadau i hyrwyddo'r amrywiaeth o rolau o fewn gwasanaeth yr heddlu i bobl ifanc o wahanol gefndiroedd na chânt gyfle fel arall efallai i ddysgu am yr heddlu. Hyrwyddwn fenywod yn y gweithle.



Gweithio i ostwng troseddu treisgar

Bu Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill yn gweithio gyda ni i wella systemau rhannu gwybodaeth er mwyn targedu adnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Rydym wedi cyflwyno Man Cymorth Abertawe a'r ymgyrch #YfychLaiMwynhewchFwy er mwyn gwneud canol ein dinasoedd hyd yn oed yn fwy diogel liw nos. Gweithredwn bolisi dim goddefgarwch o ran ymosodwyr rhywiol ac rydym yn hyfforddi staff drysau ac eraill i adnabod unigolion o'r fath a'r rhai a all fod mewn perygl o'u herwydd.

Cefnogi pobl ifanc

Caiff ein Rhaglen Gwirfoddolwyr Ifanc yr Heddlu ei chyflwyno i bobl ifanc mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn Ne Cymru. Rydym wedi cyflwyno dull gweithredu newydd i ostwng cyfraddau aildroseddu yn y grŵp oedran 18-25 ac wedi hyrwyddo newid radical, gyda phartneriaid yn y sector iechyd a llywodraeth leol er mwyn gostwng cyfraddau aildroseddu ymhellach a chadw pobl ifanc allan o'r System Cyfiawnder Troseddol. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ganolbwyntio ar ostwng cyfraddau troseddu ac aildroseddu ymhlith pobl ifanc.



System Cyfiawnder Troseddol fwy effeithlon

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i uno'r byrddau sy'n pennu cyfeiriad strategol y System Cyfiawnder Troseddol yn Ne Cymru, gan wneud pethau'n fwy effeithlon ac effeithiol. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi sefydlu panel craffu er mwyn galluogi partneriaid Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys cynrychiolwyr ynadon, i wneud yn siŵr y caiff gorchmynion gwaredu y tu allan i'r llys eu defnyddio'r gywir ac yn effeithiol, ac rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i roi gwasanaeth newydd ar waith i gefnogi troseddwr ag anghenion camddefnyddio sylweddau ledled De Cymru.

Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol

Rydym yn gweithio'n effeithiol i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelu pobl sy'n agored i niwed, yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac, ar gais Llywodraeth Cymru, yn helpu darparwyr tai cymdeithasol i ateb yr her. Rydym yn defnyddio dulliau adferol, yn ymgynghori â dioddefwyr ynglŷn â chosbau ac yn defnyddio'r Sbardun Cymunedol i roi llais i ddioddefwyr.





**Y GWIR ANRH.
ALUN MICHAEL**
COMISIYNYDD YR HEDDLU
A THROSEDDU DE CYMRU

HEDDLU DE CYMRU


Yn 1969 unwyd pum cwnstabliaeth i ffurfio Heddlu De Cymru. Mae ein sefydliad wedi wynebu sawl her ar hyd y ffordd; o gael ein labelu'n un o'r heddluoedd gwaethaf o ran boddhad dioddefwyr i ddod yn un o'r rhai gorau yn y DU, o blismona ein cymunedau yn ystod streic y Glowyr i blismona llawer o ddigwyddiadau lleol a rhyngwladol. Mae'r profiadau hyn wedi esgor ar y dull modern o blismona cymunedau y caiff ein swyddogion eu hadnabod a'u parchu amdano.




PETER VAUGHAN QPM
PRIF GWNSTABL



TAITH HEDDLU DE CYMRU





Plismona De Cymru

Er ei fod ond yn cwmpasu 10% o arwynebedd tir Cymru, mae Heddlu De Cymru yn darparu gwasanaeth i 1.3 miliwn o bobl, sy'n cyfateb i 42% o boblogaeth y wlad a bron hanner cyfanswm y troseddau yng Nghymru. Golyga hyn fod galw mawr am adnoddau o fewn yr Heddlu ac yn ystod y 12 mis hyd at fis Medi 2015 mae'r Heddlu wedi ymdrin â 35,848 o arestiadau, 403,469 o ddigwyddiadau, 168,021 o alwadau (999) brys a 428,591 o alwadau (101) nad oeddent yn rhai brys.

Heddlu De Cymru yw'r seithfed heddlu prysuraf yng Nghymru a Lloegr (y tu allan i Lundain) o ran troseddau fesul 1000 o'r boblogaeth a'r 16eg heddlu mwyaf effeithiol o ran darganfod troseddau.

Mae gan Heddlu De Cymru enw da cynyddol am ragoriaeth, gan ei fod yn cael ei ystyried yn heddlu blaengar ac arloesol ac erbyn hyn cydnabyddir ei fod ymhlith yr heddluoedd sy'n perfformio orau, perfformiad a gyflawnwyd yn erbyn cefndir o'r heriau parhaus sy'n gysylltiedig â gostyngiadau mewn cyllid. Mae lefelau troseddu yn ardal De Cymru wedi gostwng yn gyson dros y 30 mlynedd diwethaf gan gyrraedd eu lefelau isaf ers 1983, sy'n dangos bod cymunedau De Cymru yn parhau i fod yn ddiogel. Yn yr un modd, mae nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.


Mae penderfyniad yr Heddlu i fabwysiadu system lle y cofnodir troseddau yn y tarddle yn 2014 yn golygu ei fod ar flaen y gad o ran datblygu'r

arfer da a nodwyd gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi. Mae'r newid pwysig hwn mewn arfer cofnodi yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r lefelau o droseddau a gofnodwyd a phroses fwy tryloyw i'r cyhoedd.

Mae ardal yr Heddlu a'i bedair Uned Reoli Sylfaenol yn ymestyn dros ffiniau saith awdurdod unedol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg, a lleolir y Pencadlys ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ardal yn cynnwys 64 o'r 100 o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae'n rhanbarth amrywiol sy'n cynnwys heriau plismona gwledig, arfordirol a threfol, gan gynnwys y ddwy ddinas fwyaf poblog yng Nghymru, sef Abertawe a'r brifddinas, Caerdydd.

Mae De Cymru, sy'n enwog am ei ymdeimlad cryf o hanes, yn parhau i ehangu i feysydd busnes, hamdden a thwristiaeth a dros y 30 mlynedd diwethaf mae wedi newid yn sylweddol. Mae cymunedau yn fwy gwasgaredig, mae ardaloedd cyflogaeth wedi symud, ac mae mwy a mwy o bobl yn dod i Dde Cymru i ymgartrefu neu fel ymwelwyr â'n prifddinas, ein harfordir a'n safleoedd treftadaeth.

Mae Abertawe yn ddinas fywiog lle y ceir porthladd fferi, tîm pêl-droed sy'n chwarae yn Uwchgynghrair Lloegr a thîm rygbi'r Gweilch. Mae'r ddinas hefyd yn gartref i Brifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Choleg Gŵyr Abertawe, sydd â chyfanswm o tua 20,000 o fyfyrwyr llawn amser.



Mae Caerdydd yn un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop ac mae'n denu mwy na 18 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae'r ddinas yn gartref i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Stadiwm Principality sy'n fyd-enwog, Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, tîm pêl-droed Dinas Caerdydd, tîm rygbi Gleision Caerdydd a stadiwm criced SWALEC lle y cynhelir gemau criced Morgannwg a gemau criced rhyngwladol. Mae effaith digwyddiadau cysylltiedig ar blismona a'r ffaith mai Caerdydd yw prifddinas Cymru yn codi eu problemau ariannu eu hunain, nas cydnabyddir gan Lywodraeth San Steffan, yn wahanol i Lundain a Chaeredin, a byddaf yn parhau i fynd ar ôl y mater hwn ar ran Heddlu De Cymru.

Mae gan Gaerdydd nifer o sefydliadau addysg uwch pwysig, sef: Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru sydd hefyd yn ymgorffori Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae'r ddinas yn gartref i tua 66,000 o fyfyrwyr a hefyd gymunedau mwyaf amrywiol Cymru.

Merthyr Tudful, a saif ym mhen mwyaf gogleddol ardal yr heddlu, yw'r porth i Fannau Brycheiniog ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'n destun rhaglen adfywio sydd wedi cynnig cyfleoedd newydd i fusnesau a thwristiaeth yn yr ardal, megis Parc Beicio Cymru, sef parc beicio mynydd graddfa lawn cyntaf y DU.

Mae ffin arfordirol ddeheuol De Cymru yn cwmpasu porthladdoedd y Barri, Port Talbot ac Abertawe, ynghyd â threfi glan môr megis Penarth a Llanilltud Fawr, Arfordir Treftadaeth Morgannwg a chyrchfannau twristiaeth poblogaidd Porthcawl, y Mwmblys a Bro Gŵyr, sydd wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Mae De Cymru o bwys strategol mawr gyda'r rhwydwaith ffyrdd (yn enwedig yr M4 a ffordd yr A465, Blaenau'r Cymoedd) cysylltiadau rheilffordd da a'r farchnad fawr sy'n peri risg barhaus y bydd giangiau troseddau

cyfundrefnol o Loegr ac Ewrop yn ymdreiddio i'r rhanbarth.

Mae'r ffaith bod yr ardal yn weddol agos i Fryste, a dinasoedd mawr megis Llundain, Manceinion, Lerpwl a Birmingham, sydd â lefelau o droseddau'n ymwneud â gynau a thrais sy'n gysylltiedig â chyffuriau nas gwelir i'r un graddau yn Ne Cymru, yn ein hatgoffa'n gyson pa mor ddifrifol yw'r bygythiad gan droseddau cyfundrefnol. Mae hyn yn pwysleisio nad yw troseddau yn cydnabod ffiniau cenedlaethol na ffiniau gweinyddol ac yn tanlinellu pwysigrwydd cydweithredu er mwyn mynd i'r afael â throseddau.

Mae presenoldeb Llywodraeth Cymru yn gofyn am uned blismona benodol sy'n gyfrifol am ddiogelwch ac mae Caerdydd, sy'n gartref i Lywodraeth Cymru, yn denu nifer gynyddol o wrthdystiadau yn erbyn polisïau rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r Heddlu hefyd yn plismona tua 500 o ddigwyddiadau ledled ardal yr heddlu bob blwyddyn, sy'n gofyn am wahanol lefelau o ymyrraeth gan yr heddlu o ran cynllunio ac adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys plismona gemau pêl-droed yr Uwchgynghrair a gemau pêl-droed Ewropeaidd a Rhyngwladol, gemau criced a rygbi rhyngwladol a digwyddiadau chwaraeon eraill, cyngherddau, ymweliadau brenhinol, digwyddiadau Milwrol Cyhoeddus, gwrthdystiadau a gorymdeithiau protest a phlismona dyddiadau allweddol ar gyfer yr economi liw nos yng Nghaerdydd ac Abertawe ac ati.

Yn 2015 helpodd yr Heddlu i blismona digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â'r Etholiad Cyffredinol a gemau Cwpan Rygbi'r Byd, a nifer o ddigwyddiadau mawr eraill.

Sefydliad arloesol a chynaliadwy

Er mwyn cyflawni nodau'r Cynllun Heddlu a Gostwng Troseddu hwn, yng nghyd-destun heriau ariannol, bu'n rhaid i Heddlu De Cymru newid dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn sawl ffordd, nid yw hon yn sefyllfa newydd; er mwyn ymateb i newidiadau mewn cymdeithas a natur troseddu a chymunedau, bu angen i'r heddlu bob amser ddatblygu. Bu gwneud hyn a chynnal ein gwasanaethau i gymunedau a'n rhan mewn partneriaethau yn fwy heriol byth, wrth gwrs, yn wyneb y lleihad mewn adnoddau. Felly, bu'n rhaid i ni weithio mewn ffyrdd newydd a bydd y broses newid hon yn parhau wrth i anghenion y cymunedau rydym yn eu plismona yn newid dros amser ac yng nghyd-destun gostyngiadau pellach mewn cyllid.

Nid yw agweddau pwysig ar y ffordd rydym yn gweithredu wedi newid a byddant yn aros yn ddigryfnid. Mae **ein cenhadaeth** Cadw De Cymru'n Ddiogel yn rhan annatod o'n busnes o ddydd i ddydd ac mae'n seiliedig ar ein **gweledigaeth** i sicrhau mai ni yw'r gorau am ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau; mae hyn yn ei droi yn sbardun i'n **gwerthoedd** sy'n ymwneud â'r ffordd rydym yn cydweithio ac sy'n sail i bopeth a wnawn:

- Proffesiynol, gyda staff sy'n onest, sy'n cymryd perchenogaeth ac sy'n dangos parch.
- Balch o'n sefydliad, y cymunedau a wasanaethir ganddynt a hwy eu hunain.
- Cadarnhaol, i ymateb i bobl a'u pryderon a bod yn ddibynadwy ac yn ofalgar.

Fel Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu rydym wedi amlinellu ein dull gweithredu ar y cyd yn y crynodeb un dudalen o'n hegwyddorion a'n gwerthoedd ar dudalen 17. Mae Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu yn disgrifio ein gweledigaeth ar y cyd a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer plismona,

diogelwch cymunedol a darparu system cyfiawnder troseddol effeithiol.

Rydym wedi edrych ymlaen at ddatblygu model gweithredu i'r heddlu a fydd yn ei alluogi i barhau i gadw De Cymru'n Ddiogel dros y blynyddoedd i ddod. Caiff hyn ei gyflawni drwy Gynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl, sy'n disgrifio'r newidiadau yr oedd angen i ni eu gwneud er mwyn sicrhau bod gan yr Heddlu y bobl gywir, sydd â'r sgiliau cywir a'r adnoddau a'r dechnoleg gywir ar gyfer y dyfodol.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r datblygiadau y mae angen eu hystyried mewn strategaethau galluogi a chefnogi mae:

- Newidiadau yn natur troseddu a datblygiad marchnadoedd troseddol newydd,
- Dealltwriaeth sy'n datblygu o'r galw arnom, nad yw llawer ohono yn ymwneud â throseddau,
- Defnydd cynyddol o gyfathrebu digidol a gwasanaethau ar-lein,
- Y posibilrwydd y caiff plismona ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru,
- Diwygiadau arfaethedig i strwythurau llywodraeth leol yng Nghymru,
- Plismona poblogaeth gynyddol amrywiol ac un sy'n heneiddio,
- Mwy o bwyslais ar graffu cyhoeddus a thryloywder.

Ein Model Gweithredu ar gyfer y Dyfodol

Proses barhaus yw datblygu model gweithredu'r dyfodol ond mae wedi'i llywio gan egwyddorion allweddol ac wedi'i strwythuro er mwyn adlewyrchu rhaglen o newid sy'n rhychwantu'r sefydliad o dan bum pennawd.





Ein Cyhoedd

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cymunedau hyderus a chydlynol ac yn deall ein rôl o ran eu datblygiad a'u cynaliadwyedd. Mae'n hollbwysig bod y cyhoedd yn ymddiried yn y gwasanaeth a ddarparwn, y gallant gysylltu â ni'n hawdd os bydd angen a'n bod yn rhoi cyfleoedd i ymgysylltu er mwyn helpu i lywio'r ffordd rydym yn plismona.

I'r perwyl hwn, byddwn yn parhau i ymgorffori'r Cod Moeseg yn ein sefydliad a byddwn yn defnyddio'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol i ddatblygu ein hegwyddorion a'n safonau ymddygiad er mwyn atgyfnerthu ymddiriedaeth, parch a thryloywder. Fodd bynnag, rydym hefyd yn sylweddoli y bydd gwir werth y gwaith hwn yn dod o'r ymwybyddiaeth yn ein cymunedau; fel y cyfryw byddwn yn defnyddio cyfuniad o ddulliau traddodiadol, cyfredol a newydd o gysylltu er mwyn gwneud y ffordd rydym yn plismona yn fwy hygyrch. Ni ellir tanbrizio rôl cyfathrebu'n effeithiol â'n cyhoedd, mae'n hanfodol i'w canfyddiad a'u hyder yn ein gwasanaethau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi'n rheolaidd iddynt ar y ffurf fwyaf priodol, boed hynny drwy dueddiadau diweddaraf cyfryngau cymdeithasol, neu drwy ddulliau mwy confensiynol megis cylchlythyrau. Wrth i hyn ddatblygu, byddwn yn gallu gweithio gyda'r cyhoedd er mwyn helpu i reoli'r galw drwy eu helpu i wasanaethu eu hunain drwy ddulliau ar-lein, megis 'Olrhain fy Nhrosedd', lle mae rhywun yn rhyngweithio er mwyn cael cyngor neu wybodaeth; bydd hyn yn addysgu ac yn grymuso ein cymunedau, a hefyd yn gwella ein gallu i ymateb yn effeithlon. Ni fydd rhyngweithio wedi'i gyfyngu i gyfathrebu yn unig a byddwn yn datblygu mentrau i annog y cyhoedd i weithio'n uniongyrchol gyda ni,

drwy brentisiaethau, ehangu ein rhaglen ar gyfer Gwirfoddolwyr Ifanc yr Heddlu ac ailfywiogi ein proses o recriwtio Cwnstabiliaid Gwirfoddol. Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol er mwyn datblygu cyfleoedd i bobl ifanc a phartneriaeth gadarnhaol â'r trydydd sector.



Ein Pobl

Rydym yn sylweddoli mai pobl yw ein hased mwyaf a bod y gwasanaeth a ddarparwn yn dibynnu ar y ffaith eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cymell a'u datblygu'n briodol i ymgymryd â'u rolau'n effeithiol. Mae hefyd yn hollbwysig i'n gwaith plismona bod ein gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth fwyfwy ardal De Cymru.

Er gwaethaf yr heriau ariannol a wynebier gan yr Heddlu a'r effeithiau ar recriwtio, byddwn yn parhau â'n gwaith ar y prosiect Gweithlu Cynrychioliadol gyda'r nod o adlewyrchu ein cymunedau'n well. Byddwn yn recriwtio unigolion sy'n arddel ac yn adlewyrchu ein gwerthoedd, gan sicrhau eu bod yn barod i ymdrin â'r gofynion presennol arnom a gofynion newydd megis troseddau digidol a diogelu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Rydym yn cydnabod bod iechyd, lles a datblygiad proffesiynol parhaus ein pobl yn hollbwysig er mwyn galluogi'r Heddlu i ymaddasu at heriau newydd, a fydd yn ei dro yn gwella cymhwysedd, gallu a diwylliant. Byddwn yn defnyddio atebion traddodiadol ac arloesol megis adnoddau ar-lein i gefnogi ein staff gan gynnwys atebion hyblyg i hyrwyddo eu lles a'u hannog i ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i ofynion sy'n newid. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ein

rhaglen hyfforddiant byddwn yn ceisio ymgorffori'r model 70:20:10 sy'n rhoi llai o bwyslais ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth, gyda'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar yr angen i ddatblygu galluoedd sydd eu hangen ar bobl ac y byddant yn eu defnyddio.

Bydd y dull gweithredu hwn yn hyrwyddo diwylliant lle deallir bod cyfrifoldeb personol, datblygiad proffesiynol a chydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd yn hollbwysig i'r gwasanaeth a ddarparwn.



Ein Plismona

Rydym yn deall, er mwyn i'n gwaith plismona wir ddiwallu anghenion ein cymunedau, fod yn rhaid iddo ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, gyda'n pobl wedi'u trefnu ac yn meddu ar y wybodaeth a'r gallu i fodloni'r gofynion hyn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i blismona yn y gymdogaeth barhau i fod wrth graidd ein strwythur sefydliadol.

Ar yr un pryd, rydym yn plismona ein prifddinas a bron hanner poblogaeth Cymru. Felly bydd angen i ni ystyried y Gofynion Plismona Strategol a chynnal galluoedd arbenigol yr heddlu er mwyn mynd i'r afael â bygythiadau megis troseddau cyfundrefnol a therfysgaeth, yn ogystal â phlismona digwyddiadau mawr. Wrth i gyllid leihau, mae angen y galluoedd hynny arnom y gellir eu cyfiawnhau drwy asesiad o'r bygythiadau a wynebwn a byddwn yn ceisio rhannu adnoddau â heddluoedd eraill, lle bynnag y bo modd. Er mwyn sicrhau bod yr Heddlu yn barod mewn byd sy'n newid o hyd, byddwn yn adolygu ein darpariaeth blismona mewn ffordd ddeallus er mwyn datblygu a chynnal 'ffordd gorfforaethol Heddlu De Cymru' o

gynnal busnes, a all, er ei bod yn gyson, newid er mwyn diwallu anghenion lleol. Yn benodol, bydd angen i ni ymateb drwy'r amser i'r ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio technoleg ac mae hyn yn golygu teilwra mynediad at fwy o wasanaethau a gwybodaeth ar-lein.

Mae'r defnydd o gyfathrebu digidol ym mywydau pawb yn golygu bod angen dulliau cost-effeithiol o gael tystiolaeth a gwybodaeth o ffynonellau digidol, boed hynny wrth ddelio â digwyddiadau lleol neu fygythiadau cenedlaethol. Byddwn yn adeiladu ar ein henw da fel arweinwyr yn y defnydd o dechnoleg newydd er mwyn cynyddu ein presenoldeb yn y man cywir, ar yr adeg gywir ac ateb y galw yn ddi-oed. Un ffocws allweddol fydd sicrhau bod ein pobl yn cael mynediad at wybodaeth pan fyddant ar fynd ac y gallant weithio'n hyblyg drwy ddefnyddio technoleg symudol a thechnoleg o bell.

Rydym wedi cynnal adolygiad sylfaenol o'r galw am ein gwasanaethau. Mae galwadau'r cyhoedd am wasanaeth yn aml yn ymwneud â diogelwch a lles y cyhoedd erbyn hyn, sef materion y mae angen i ni ymateb iddynt ar y cyd â phartneriaid. O ran pob math o drosedd byddwn yn mynd ati i ostwng troseddu a bydd ein gallu i ymchwilio yn canolbwyntio'n benodol ar fygythiad, risg a niwed i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys pwyslais ar drais yn erbyn menywod a merched, a chamfanteisio'n rhywiol ar blant gyda mwy o'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn timau amlasiantaethol sydd wedi'u cyd-leoli.



Our Resources

Rydym yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth i'n cymunedau sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion ac

sy'n cael ei ysgogi o hyd drwy arloesi, cydweithredu ac effeithlonrwydd.

Yr elfen bwysicaf o'r gwasanaeth a ddarparwn yw ein darpariaeth rheng flaen i'r cyhoedd a'r elfen hon fydd wrth wraidd y ffordd rydym yn llunio ein strwythur ategol. Byddwn yn parhau i adolygu ein swyddogaethau cefn swyddfa er mwyn lleihau biwrocratiaeth, dileu gwastraff a gwella effeithlonrwydd, gan sicrhau bod hyn yn cael ei droi'n welliannau i'r ffordd rydym yn plismona ein cymunedau. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau ein staff, gyda chymorth technoleg newydd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael yn y lleoliadau cywir ar yr adegau cywir. Bydd mentrau'r Heddlu, megis Prosiect Fusion, yn newid ac yn gwella ein gwaith plismona, gan addasu'r gwasanaeth a ddarparwn i adlewyrchu dymuniadau modern yn well drwy ddefnyddio technoleg symudol, rhyngweithio ar-lein a gweithio ystwyth.

Wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, y man cychwyn fydd cyfiawnhad clir o angen a phan benderfynir bwrw ymlaen byddwn bob amser yn canolbwyntio ar werth am arian tra'n ceisio cadw gwariant o fewn economi Cymru. Caiff hyn ei ategu gan y strategaethau sydd ar waith gennym ynglŷn â'n hystad, ein fflyd a'n cyllid, a gânt eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd er mwyn ystyried newidiadau ar lefel leol a chenedlaethol sy'n ein galluogi i ymaddasu'n gyflym. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i nodi cyfleoedd i gyd-leoli, a fydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau gweithredol yn cael eu lleoli yn y man gorau i blismona ein cymunedau a bydd hyn yn cynnwys y Ganolfan Gwasanaeth Cyhoeddus Tri Gwasanaeth mewn partneriaeth â'r gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans.



Ein Partneriaid

Rydym yn sylweddoli y gall gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu chwarae rhan

allweddol o ran gwella'r gwasanaethau a ddarperir, ateb y galw'n fwy effeithiol a sicrhau arbedion mewn costau; fodd bynnag, gwyddom mai dim ond os bydd er budd pennaf ein cymunedau y dylid gwneud hynny.

Mae cyflwyno Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol yn gwella ein gallu i ddiogelu rhai o aelodau ein cymunedau sydd fwyaf agored i niwed drwy gyd-leoli'r heddlu, iechyd, gwasanaeth prawf, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Rydym eisoes wedi cyflwyno gweithdy cerbydau ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn llwyddiannus ac wedi cydweithio â Heddlu Gwent o ran yr Uned Ymchwilio Gwyddonol yn ogystal â system Niche. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y prosiectau hyn ac yn ystyried themâu penodol sydd o ddiddordeb cyffredin a fydd yn ychwanegu at ein gwaith plismona, megis gwella ansawdd data ar systemau a rennir. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau o adolygiad 2015 o'r amgylchedd cydweithredol yng Nghymru ac yn targedu meysydd megis Troseddau Arbenigol ac Iechyd Galwedigaethol, ac ar yr un pryd adolygu'r trefniadau presennol hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn parhau i fod yn fanteisiol i'r rhai dan sylw. Wrth weithio mewn partneriaeth byddwn yn arloesol ac yn ymestyn y tu hwnt i heddluoedd, awdurdodau lledol a'r trydydd sector yng Nghymru i gynnwys y rhai o ddiwydiant preifat ond dim ond lle y gellir sicrhau arbedion effeithlonrwydd heb effeithio ar y gwasanaeth a ddarparwn i gymunedau De Cymru.

Plismona

Mae plismona yn waith cymhleth a heriol ei natur; dylanwedir ar ei ofynion gan nifer enfawr o ffactorau o gyflwr yr economi i'r tueddiadau technolegol diweddaraf, ond disgwylir i heddluoedd ymaddasu ac ymateb yn effeithiol i'r heriau hyn.


Mae Cwnstablfaeth Arolygiaeth Ei Mawrhydi yn cynnal arolygiadau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaeth a ddisgwylir ganddynt. Un asesiad nodedig yw Rhaglen PEEL, sy'n defnyddio tystiolaeth o sawl arolygiad i asesu'r heddlu, effeithlonrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb; mae'r broses hon yn gwneud i Heddlu De Cymru ganolbwyntio ar:

Effeithiolrwydd	Effeithlonrwydd	Cyfreithlondeb
- Cam-drin Domestig - Seibrddigwyddiadau - Dysgu sefydliadol	Rhagor o gyfleoedd i gydweithredu	- Cod Moeseg - Fetio staff
Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant, Iechyd Meddwl, Gwerth am Arian, rheoli gwybodaeth a'r galw		

Tra bod yr uchod yn rhoi cyfeiriad ar feysydd i'w gwella er mwyn ychwanegu at y gwasanaethau a ddarparwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi bygythiadau y mae'n rhaid i heddluoedd fod yn barod i ymdrin â hwy. Ar hyn o bryd y bygythiadau hyn yw

Terfysgaeth	Argyfyngau Sifil	Troseddu Cyfundrefnol	Bygythiadau i drefn gyhoeddus	Seibrddigwyddiadau
-------------	------------------	-----------------------	-------------------------------	--------------------

Mae'r wybodaeth hon yn dangos yn gyflym y gofynion arnom fel gwasanaeth ond mae'n rhaid ystyried y cyfan yng nghyd-destun ein perfformiad a'n taith ein hunain:



Mae ardak De Cymru yn lle diogelach nag erioed i fyw a gweithio ynddi neu ymweld â hi gyda'r gwasanaeth a roddir gan yr Heddlu i ddioddefwyr ymhlith y gorau yng Nghymru a Lloegr; mae'n hollbwysig y caiff y safonau hyn eu hadlewyrchu a'u cynnal drwy'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu.

GALW 2015


Mae hwn yn ddiwrnod arferol ym mywyd Heddlu De Cymru

GALW I MEWN




CANOLFAN GWASANAETH CYHOEDDUS

613 o alwadau 999 wedi'u derbyn **1360** o alwadau nad ydynt yn rhai brys wedi'u derbyn




SWITSFWRDD

1686 o alwadau wedi'u derbyn



SWYDDOGION GWEITHREDOL

915 o gysylltiadau uniongyrchol



GALW DYDDIOL

11% o'r galw yn ymwneud â throedd	151 o bobl drwy'r ddalfa	94 o arestiadau	32 o bersonau coll
131 o achosion trafnidiaeth	359 o alwadau ynglŷn â diogelwch lles y cyhoedd	70 o adroddiadau am ymddygiad rthgymdeithasol	71 o achosion domestig
54 o ymosodiadau	13 o fwrgleriaethau domestig	3 trosedd rywiol	30 o droseddau ynglŷn â cherbydau

1509 o negeseuon a sylwadau drwy Gyfryngau Cymdeithasol Heddlu De Cymru

NEWID MEWN TUEDD ERS 2008/09

Diogelwch lles y cyhoedd	+30% ↑
Trafnidiaeth	+14% ↑
Troseddu	-27% ↓
Ymddygiad gwrth-gymdeithasol	-64% ↓

GALW PARHAUS

Yn ogystal ag ymateb i alwadau dyddiol am wasanaeth, rydym hefyd yn ymgymryd â gwaith i ddiogelu ein cymunedau, gan gynnwys:

Rheoli tua **1789** o droseddau o dan MAPPA

Cefnogi **1591** o blant ar y gofrestr amddiffyn

Cysylltu â **11,311** o ddioddefwyr mynych cam-drin domestig

PLISMONA DE CYMRU 1AF – 14EG HYDREF 2015

GALWADAU PLISMONA CRAIDD



22,613

o Alwadau 999
neu 101



1,531

o Achosion o
Ymddygiad
Gwrthgymdeithasol



3,672

o Droseddau



1,524

o Arestïadau



273

o Bersonau Coll




204

o Bobl wedi'u stopio
a'u chwilio




1

Ymweliad Brenhinol



336

o Brofion Anadl



96

Achos o Anaf Personol ar ôl Gwrthdaro
Traffig ar y Ffordd

HEDDLU #1 O HYD YNG NGHYMRU O RAN Y GWASANAETH A RODDIR I DDIODDEFWYR TROSEDDAU



3

Gêm Cwpan
Rugbi'r Byd



267,051

o gefnogwyr dim ond yn
ein stadiymau

Hanner Marathon Caerdydd

16,000
o redwyr

50,000
o wylwyr




2

Gêm pêl-droed
profil uchel

Beth mae ein partneriaid yn ei ddweud wrthym...

Ni ellir cadw cymunedau De Cymru yn ddiogel drwy weithredoedd yr heddlu ar ei ben ei hun ac fel y cyfryw mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau'r canlyniad hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am ddeall eu blaenoriaethau unigryw gan fod y rhain yn adlewyrchu'r gofynion arnynt.

Drwy ddeall y meysydd craidd y canolbwyntir arnynt gan sefydliadau sy'n gweithredu o fewn ein ffiniau, gallwn sicrhau y caiff y rhain eu hadlewyrchu drwy ein blaenoriaethau ein hunain, gan sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol drwy weithgarwch ategol. Mae'r ystyriaeth a'r gwerthfawrogiad hwn o waith ein partneriaid yn nodi gorgyffwrdd amlwg â'n blaenoriaethau ein hunain:



Mae ein dull gweithredu o weithio gyda nifer o bartneriaid yn cyflawni portffolio o fentrau llwyddiannus i fynd i'r afael â phroblemau yn ein cymunedau:

Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol (MASH)	Man Cymorth	Yfwch Lai Mwynhewch Fwy	Pathfinder i Ferched	Gwirfoddolwyr sy'n Fyfyrywyr
---	----------------	-------------------------------	-------------------------	---------------------------------

Drwy arloesi a'r ymgais i ymgymryd â'n gwaith mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rydym yn ystyried "partneriaid" mewn ystyr llawer ehangach na'r rhai sydd hefyd yn darparu gwasanaethu i gymunedau De Cymru yn unig. Rydym wedi meithrin cysylltiadau cadarn â'r byd academiaidd ac wedi creu Sefydliad Gwyddoniaeth Heddlu'r Brifysgol â Phrifysgol Caerdydd er mwyn gwella ein gwybodaeth a'n harbenigedd, gan feithrin dealltwriaeth werthfawr mewn sawl maes:

Dadansoddi mannau â phroblemau	Ymddygiad Gwrthgym- deithasol	Trais yn erbyn Menywod a Merched	Gwasanaethau Dioddefwyr	Gyrfaodd Troseddol
--------------------------------------	-------------------------------------	--	----------------------------	-----------------------

Beth mae'r cyhoedd yn ei ddweud wrthym...

Mae deall anghenion ein cymunedau ac ymateb iddynt yn ffocws allweddol i Heddlu De Cymru ac fel y cyfryw rydym yn defnyddio'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym er mwyn helpu i ganolbwyntio sylw'r Heddlu ar yr hyn sy'n bwysig.

Gofynnwyd i'r cyhoedd nodi a oeddent yn cytuno â'n blaenoriaethau presennol ac mae pwysoliad cymeradwyo yn dangos ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd cywir; hefyd rhoddwyd sylwadau gwerthfawr ar bethau y maent yn teimlo y dylem eu hystyried yn y dyfodol.

Sicrhau ymateb cyflym a chymesur i droseddau	94%
Lleihau trais a mynd i'r afael ag achosion troseddu	94%
Gwneud cymunedau'n ddiogel a galluogi'r cyhoedd i deimlo'n ddiogelach	93%
Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol â phartneriaid	91%
Torri biwrocratiaeth a gwneud i bethau ddigwydd	90%
Sicrhau bod dioddefwyr wrth wraidd y ffordd y gweithredwn	89%
Sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithiol	88%
Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched	87%
Torri cyfraddau troseddu yn y grŵp 18-25 oed	86%
Ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gyfathrebu â'r heddlu	86%
Gweithredu ar sail tystiolaeth o ran yr hyn sy'n llwyddo	85%
Atal troseddu ac aildroseddu ymhlith pobl ifanc	80%
Hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch	79%
Cymhwyso egwyddorion Cyfiawnder Adferol	75%
Gwella diogelwch ar y ffyrdd	73%

62%
o bobl yn teimlo bod
Camfanteisio'n Rhywiol ar
Blant a Cham-drin Plant yn
ffocws a oedd yn dod i'r
amlwg

Roedd terfysgaeth a
radicaleiddio hefyd yn
flaenoriaeth a oedd yn
datblygu i

48%

Bu'r adborth hwn yn amhrisiadwy ac rydym hefyd wedi defnyddio ymchwil arall, y ddau o safbwynt lleol a chenedlaethol, er mwyn rhoi tystiolaeth bellach i gyfeirio'r ffordd rydym yn gweithredu. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i gael darlun cyfannol o blismona, profiad, canfyddiad a phryder, gan ategu'r hyn a wyddom eisoes

Cymunedau Hyddysg



59%

o bobl yn canfod ein bod yn ymdrin
â blaenoriaethau cymunedau*



58%

o bobl yn teimlo nad ydynt yn cael
gwybodaeth am blismona lleol...*



77%

...ond mae
wedi mynegi diddordeb!*

*Canfyddiadau Arolwg Force Compass

Yn fwy hyderus • Yn fwy tebygol o roi gwybod am achosion • Yn ymgysylltu'n well • Yn gwneud ein gwaith plismona'n fwy effeithiol

Gwerthoedd ac Egwyddorion Cyffredinol

Cydweithredu yw'r egwyddor sylfaenol sy'n ein hysbrydoli Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni mwy nag y gallwn ei gyflawni ar ein pen ein hunain

Ein nodau cyffredinol yw...

- Lleihau troseddau, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Hyrwyddo buddiannau dioddefwyr a diogelu pobl sy'n agored i niwed
- Helpu i feithrin cymunedau cydweithredol, cadarnhaol a chryf a sicrhau bod pob cyswllt yn bwysig
- Gweithredu ar sail tystiolaeth – nodi'r problemau y mae ein cymunedau yn eu hwynebu, dadansoddi data a nodi "Yr hyn sy'n Llwyddo".
- Galluogi'r System Cyfiawnder Troseddol i weithio'n gynt ac yn fwy effeithlon
- Cefnogi tîm Heddlu De Cymru lle mae pawb yn Arweinydd ac yn Falch, yn Gadarnhaol ac yn Broffesiynol

Mae ein gwaith tîm yn cynnwys pedair elfen...

- **AR Y CYD** gan y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u timau
- **YN EHANGACH** â "Teulu" Heddlu De Cymru
- **MEWN PARTNERIAETH** â'r holl asiantaethau eraill a thrwy
- **YMGYSYLLTU** â'r cyhoedd, gyda ffocws ar ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed, risg, bygythiadau a chynhwysiant

Rydym yn gwerthfawrogi, yn herio ac yn parchu'r rhai yr ydym yn gweithio gyda hwy...

- O fewn ein Tîm ein hunain
- O fewn Teulu'r Heddlu
- O fewn Sefydliadau Partner ac Asiantaethau
- O fewn y gymuned ehangach

Rydym yn ystyried Ymyrryd yn Gynnar yn egwyddor gweithredu allweddol...

- Hanfod Plismona yw gweithredu i gadw'r gymuned yn ddiogel ac yn hyderus
- Ers dyddiau Syr Robert Peel, cyfrifoldeb cyntaf yr heddlu fu **atal** troseddau – prawf llwyddiant plismona yw absenoldeb troseddu, yn hytrach na phresenoldeb gweithgarwch
- Ond mae plismona mewn cymdeithas fodern yn golygu bod yn rhaid i ni wneud llawer mwy nag ymdrin â throseddau. Ac mae mynd i'r afael â'r materion y mae ein cymunedau yn disgwyl i ni fynd i'r afael â hwy yn dibynnu ar **weithredu buan a chadarnhaol ar y cyd**
- Ac wrth i wasanaethau cyhoeddus orfod gwneud mwy gyda llai, mae'n rhaid i ni grebachu gyda'n gilydd, nid crebachu ar wahân a dilyn egwyddorion cynaliadwydd a lles yn y dyfodol
- Ni allwn wneud hynny ar ein pen ein hunain, felly bydd Heddlu De Cymru yn nodi tueddiadau ac achosion yn gyflym a, gyda phartneriaid, yn nodi'r math mwyaf effeithiol o **ymyrryd yn gynnar**

Blaenoriaethau

1 Byddwn yn gostwng ac yn atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn cadw pobl yn ddiogel ac yn hyderus yn eu cartrefi a'u cymunedau

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

Gostwng ac atal troseddu yw fy mhrif amcan fel Comisiynydd yr Heddlu a Phlisma ac mae hon yn flaenoriaeth allweddol i'r Prif Gwnstabl ac i minnau. Byddwn yn llym ar droseddu ac achosion troseddu, gan fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol a'u hatal drwy hyrwyddo mentrau ymyrryd yn gynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth, partneriaeth a gwerthuso er mwyn nodi "yr hyn sy'n llwyddo" a sut y gall rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ychwanegu gwerth. Er ein bod wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r pryderon hyn, gwyddom fod angen gwneud rhagor.

Gall achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gael effaith sylweddol ar

fywydau pobl, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n dioddef dro ar ôl tro, ac mae'n un o'r prif faterion sy'n rhan o'n hymgyngori â'r cyhoedd. Ceir effaith hefyd ar y troseddwy eu hunain, yn enwedig troseddwy ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, a byddwn hefyd yn canolbwyntio ein gwaith ar raglenni gwrthdiniadol er mwyn rhoi'r cymorth sydd ei angen.

Mae lefel troseddau cofnodedig wedi gostwng i lefel nas gwelwyd ers canol y 1980au ac mae lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd wedi gostwng. Gall y newidiadau a wnaed i'r broses o gofnodi troseddau dros y flwyddyn ddiwethaf roi sicrwydd i'r cyhoedd ein bod yn gofnodi troseddau mewn ffordd fwy cywir a thryloyw nag erioed o'r blaen.

Mae hyn yn cynnig sylfaen cadarn y gallwn adeiladu arno dros y cyfnod nesaf o bum mlynedd a bydd gweithredu'r Rhwymedi Cymunedol a'r Sbardun Cymunedol yn gwella ein gallu i ymateb i achosion o ymddygiad



Gwirfoddolwr leuenctid yr Heddlu De Cymru

gwrthgymdeithasol a'u datrys, a byddwn yn parhau i hyrwyddo gweithredu ar y cyd â'n partneriaid er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd yr hyder i roi gwybod am achosion. Mae hyn yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer mynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, darparwyr tai cymdeithasol a chynghorau i sicrhau bod ein cymunedau yn fwy diogel, gan gynnwys rhaglen newydd wedi'i harwain ar y cyd â Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y mae landlordiaid cymdeithasol yn ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol ac unigolion sy'n agored i niwed. Byddwn yn hyrwyddo dull gweithredu ar y cyd gyda'n partneriaid er mwyn rhoi hyder i'r cyhoedd roi gwybod am ddigwyddiadau, yn enwedig er mwyn diogelu pobl sy'n agored i niwed a threchu pob math o droseddau casineb.

Sut y byddwn yn gwneud hyn:

Plismona Lleol

- Gweithredu ar ganfyddiadau ein cydadolygiad o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, er mwyn sicrhau eu bod yn weladwy ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol, a bod ganddynt sgiliau ychwanegol i gyflawni'r rôl honno
- Cynnal plismona cymunedol,
- Meithrin cysylltiadau cadarn rhwng Swyddogion yr Heddlu sy'n gweithio mewn ysgolion a thimau plismona lleol ehangach er mwyn manteisio i'r eithaf ar ymgysylltu â phobl ifanc,
- Canolbwyntio ar anghenion y dioddefwr ac ar gamau gweithredu cadarnhaol cyflym er mwyn atal achosion o aildroseddu, tra'n gweithredu'n gyflym i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol,
- Gweithio gyda phobl ifanc i ehangu cynllun Gwirfoddolwyr Ifanc Heddlu De Cymru

- Recriwtio mwy o Gwnstabiliaid Gwirfoddol o bob un o'n cymunedau.

Gweithio gyda chymunedau

- Annog cymunedau i chwarae rôl weithredol i ddatrys problemau lleol drwy fentrau megis Gwarchod Cymdogaeth, Movement for Change a Citizens UK,
- Cyfrannu at y gwaith o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn parhau â'n dull o weithredu mewn partneriaeth er mwyn datblygu dyfodol cynaliadwy i'n cymunedau, gyda ffocws ar ostwng troseddu drwy ymyrryd yn gynnar ac atal
- Gweithio gyda phartneriaid i ymgyrchu dros newid deddfwriaethol, diwylliannol ac ymddygiadol er mwyn cadw ein cymunedau'n ddiogel
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod y Ddeddf Cymdogaethau Glân yn rhan o arfer lleol er mwyn gwella ansawdd bywyd a lles ein cymunedau.

Troseddau Treisgar

- Defnyddio canlyniadau adolygiad thematig a gomisiynwyd gan y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Phlismona i ddatblygu dull mwy effeithiol o drwyddedu a'i effeithiau ar yr economi liw nos,
- Gweithio i leihau troseddau treisgar drwy ddull gweithredu amlasiantaethol o rannu a dadansoddi data, meithrin cysylltiadau ag lechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn hyrwyddo ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal
- Defnyddio canlyniadau'r adolygiad a gomisiynwyd gan y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddatblygu dull gweithredu mwy effeithiol mewn perthynas â'r broses drwyddedu a'i heffaith ar yr economi liw nos.

#YfwchLaiMwynhewchFwy

Mae data goruchwyllo trais yn dangos bod tua 1 o bob 2 ddigwyddiad treisgar yn gysylltiedig ag yfed alcohol, gyda'r uchafbwyntiau o ran lefelau trais sy'n arwain at anafiadau ledled De Cymru yn digwydd rhwng 10pm a 4am ar nos Wener a nos Sadwrn ac mai dynion rhwng 18 a 25 oed sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddirodd trais ac o gyflawni trais.

O ganlyniad i'r dystiolaeth hon, lansiodd y Comisiynydd Alun Michael a'r Prif Gwnstabl Peter Vaughan gam cyntaf yr ymgyrch Gwybod y Sgôr: #YfedLaiMwynhauMwy ar ddechrau 2015 er mwyn helpu i fynd i'r afael â lefelau yfed gormodol yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd drwy wella ymwybyddiaeth o'r gyfraith.

Mae'r ymgyrch yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gweithredu mewn ffordd arloesol, gan ddeall bod alcohol yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol llawer o bobl.

Nid ydym yn portreadu alcohol fel ffactor dieflig, ond rydym yn ceisio newid y canfyddiad bod yfed yn ormodol a hynny'n rheolaidd a bwriadol yn dderbyniol i gymdeithas. Yn seiliedig ar waith ymchwil, roedd gennym flaenoriaeth glir, sef canolbwyntio ar addysg a gorfodi cyfreithiau presennol.

Mae'r ymgyrch hon yn anelu'n benodol at leihau troseddau treisgar sy'n gysylltiedig ag alcohol, gyda'r amcanion canlynol:

- Rydym am i bobl wybod am y cyfreithiau sy'n ymwneud â gweini alcohol i'r rheini sy'n feddw ac rydym am iddynt fod yn ymwybodol o ganlyniadau methu â chymhwyso'r cyfreithiau hynny
- Rydym am atal pobl rhag gweini alcohol i'r rheini sy'n feddw
- Rydym am i safleoedd trwyddedig wrthod mynediad i bobl sy'n feddw a'u cyfeirio at fan diogel priodol

Cynlluniwyd yr ymgyrch yn benodol er mwyn:

- Helpu a chefnogi staff barrau a thrwyddedeion i gael ar yr hyder i wrthod gweini alcohol i bobl sy'n feddw
- Helpu a chefnogi staff drws i wrthod mynediad i safleoedd yn ddiogel

- Helpu'r cyhoedd i ddeall y cyfreithiau sy'n ymwneud ag alcohol a'u helpu i fod yn ymwybodol ei bod yn anghyfreithlon gweini alcohol i rywun sydd eisoes yn feddw neu i brynu diod i rywun o'r fath

■ Hyrwyddo yfed cyfrifol

Cyflwynir yr ymgyrch ar ffurf posteri mewn safleoedd trwyddedig a thrwy ddefnyddio delweddau ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe'i lansiwyd i ddechrau dros gyfnod o saith wythnos yn ystod twrnamaint y Chwe Gwlad yn 2015.

Cyhoeddwyd gwerthusiad o'r cam cyntaf ym mis Gorffennaf 2015, a llwyddodd i ddangos bod herio achosion o ddiystyru'r cyfreithiau ar yfed alcohol wedi cael effaith gadarnhaol ar gadw De Cymru yn ddiogel. Bu canfyddiadau'r gwerthusiad a'i argymhellion o gymorth wrth lunio camau nesaf yr ymgyrch, a barhaodd wedi hynny. Felly, cynhaliwyd gwerthusiad arall ym mis Gorffennaf 2016.

Canfu canfyddiadau'r arolygon o ddefnyddwyr bywyd nos yng Nghaerdydd ac yn Abertawe cyn yr ymyriad (Ionawr 2015) ac ar ôl yr ymyriad (Ionawr 2016) yn dilyn yr ymyriad:

- Fod 45.8% yn cytuno bod yr ymyriad wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel.
- Cynyddodd nifer y bobl a oedd yn ymwybodol ei bod yn anghyfreithlon i weithiwr bar werthu alcohol i rywun a oedd eisoes yn feddw o 48% i 62.4%.
- Cynyddodd nifer y bobl a nododd ei bod yn anghyfreithlon i brynu diod i ffrind meddw o 50% i 63.4%,
- Gostyngodd nifer y bobl a oedd yn cytuno ei bod yn dderbyniol yn gymdeithasol i feddwi yn y ddinas o 86.6% i 75%.
- Dywedodd 25% o'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi cael gwrthod alcohol yn y gorffennol am eu bod yn rhy feddw.
- Roedd 29.4% o'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg yn ymwybodol o'r ymgyrch, a oedd yn uwch na'r nifer (17.2%) a nodwyd wrth werthuso ymyriad tebyg a roddwyd ar waith mewn lleoliad arall yn Lloegr (Quigg et al 2015)

2 Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cysylltu â'n cymunedau, eu cynnwys a'u hysbysu

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

Daeth yn amlwg drwy ein hymchwil bod ein cymunedau yn aneglur o hyd ynglŷn â gwaith Heddlu De Cymru a sut y gellir cael gafael ar wasanaethau. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n awyddus i adeiladu ar lwyddiant datblygiadau diweddar megis gweithredu'r Ganolfan Gwasanaeth Cyhoeddus ac ail-lansio 101, er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pryd mae eu hangen arnynt ac ar ffurf sy'n briodol i'w hamgylchiadau, gyda hyder.

Rydym yn byw mewn oes ddigidol, lle mae hygyrchedd, cyfathrebu a'r ffordd y defnyddir gwybodaeth yn gofyn am ddulliau gweithredu cynyddol amrywiol. Fodd bynnag, mae natur cymunedau yn Ne Cymru yn golygu na ellir yn syml roi'r gorau i ddulliau nwy traddodiadol a bod yn rhaid iddynt fod yn rhan o strategaeth ehangach o ymgysylltu.

Dim ond os bydd ein cymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, yn cael gwybodaeth a'u bod yn gallu cysylltu â'r gwasanaethau y cydnabyddir eu bod ymhlith y gorau yng Nghymru a Lloegr y gall hyder y cyhoedd yn Heddlu De Cymru wella ymhellach.

Sut y byddwn yn gwneud hyn:

Cynnwys

- Cynyddu cynrychiolaeth y gweithlu er mwyn sicrhau bod ein gwasanaeth yn adlewyrchu cymunedau De Cymru yn well, yn enwedig cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd
- Datblygu cynllun gweithredu i wella'r broses o recriwtio a chadw merched a'u

datblygiad yn Heddlu De Cymru, gan ddefnyddio canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad thematig ar rywedd.

- Gweithio i roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith mewn ffordd gynhwysfawr fel rhan o'n hymrwymiad i ddeall anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd ac ymateb iddynt,
- Ymgysylltu â'n cymunedau er mwyn deall beth yw'r dulliau cyfathrebu gorau a mwyaf effeithiol.

Hysbysu

- Datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu sy'n amlinellu ein hymrwymiad i wella'n barhaus y ffordd rydym yn cyfathrebu'n fewnol ac yn allanol,
- Sicrhau bod cymunedau yn ymwybodol o weithgarwch plismona lleol a sut i gael gafael ar wasanaethau'r heddlu,
- Os nad ni yw'r asiantaeth briodol i ymdrin â materion, byddwn yn helpu'r cyhoedd i gysylltu â'r gwasanaeth priodol.

Cysylltu

- Cyflwyno dull o gofnodi troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar-lein,
- Creu porth ar-lein lle y gall dioddefwyr olrhain yr ymchwiliad i'w trosedd,
- Datblygu hygyrchedd ein Canolfan Gwasanaeth Cyhoeddus ymhellach,
- Parhau i weithio'n lleol ac yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod 101 yn hygyrch i'r rhai sydd ag anghenion amrywiol,
- Defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a llwyfannau cyfathrebu mewn ffordd arloesol, gan gynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol, fel ffodd o ymgysylltu â'n cyhoedd.


3 Byddwn yn gweithio i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

Yn yr oes hon o heriau ariannol, mae'n hanfodol nad ydym yn colli golwg ar yr angen i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i'n cymunedau. Rwyf felly'n awyddus i weithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau gwell, waeth beth fo ein cyfrifoldebau statudol, am mai dyna'r peth cywir i'w wneud ar gyfer y bobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau.

Er mwyn gwneud hyn byddaf yn gweithio gyda phartneriaid yn y ffordd briodol drwy ddeall yn well eu problemau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, gan roi cyfle i "her gan gymheiriaid" nodi'r hyn sy'n gweithio, hyrwyddo'r broses o rannu arfer gorau ac adnabod nodau cyffredin.

Rydym am sicrhau bod gennym y trefniadau gorau posibl ar waith, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn diogelu'r aelodau o'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed, yn arbennig plant. Byddwn yn canolbwyntio ar unigolion sy'n agored i niwed sydd ar goll, camfanteisio ar blant yn rhywiol a chamddefnyddio plant a thrais domestig.



Sut y byddwn yn gwneud hyn:

Trais yn erbyn Menywod a Merched

- Cwblhau'r broses o roi Cynllun Gweithredu De Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched ar waith.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn diwallu anghenion dioddefwyr ledled De Cymru.
- Gwella ein hymateb i ddioddefwyr Trais ar sail Anrhydedd ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.
- Parhau i ddatblygu'r Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol (MASH) a phroses MARAC, sydd hefyd yn ymdrin â'r rhai yr effeithir arnynt gan Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant, er mwyn cwmpasu pob rhan o Dde Cymru.
- Ymgorffori rhaglen IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch) ymhellach er mwyn annog atgyfeiriadau o gam-drin domestig mewn meddygfeydd a cheisio sefydlu gwasanaeth IDVA (Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol) rhanbarthol sy'n seiliedig ar iechyd.
- Parhau i roi hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed i bob un o Swyddogion yr Heddlu a phartneriaid sy'n ymwneud â'r economi liw nos.
- Adeiladu ar ein gwaith gyda'r pum prifysgol ledled De Cymru i nodi a chefnogi myfyrwyr sy'n dod yn ddioddefwyr cam-drin domestig neu drais rhywiol.

Iechyd Meddwl ac Anabledd

- Gweithio gyda phartneriaid i wella'r prosesau cefnogi a chyfathrebu rhwng yr heddlu a'r rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl neu anawsterau dysgu drwy gyflwyno cerdyn Cadw'n Ddiogel Cymru.
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno mannau diogel, ar wahân i'r ddalfa, i unigolion a allai fel arall gael eu cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sicrhau bod swyddogion ac aelodau o staff wedi'u hyfforddi i roi cymorth effeithiol i'r rheini ag anghenion iechyd meddwl.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant

- Gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant,
- Cyflwyno Eiriolwyr Plant i weithio gyda dioddefwyr,
- Gwella'r gallu i nodi'r rhai sy'n agored i niwed a gweithio gydag asiantaethau partner i gynnig ffyrdd effeithiol o roi cymorth.

Pobl sy'n Agored i Niwed

- Defnyddio canfyddiadau'r adolygiad mewnol o Droseddau Casineb er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael y gwasanaeth mwyaf priodol a'u bod yn fodlon ar yr ymateb a roddir iddynt,
- Annog dioddef troseddau casineb i roi gwybod am ddigwyddiadau fel y gallant gael cymorth priodol
- Gweithio gyda phartneriaid megis GetSafe Online a'r Comisiynydd Pobl Hŷn i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o sgamiau ac ymddygiad twyllodrus.

4 Byddwn yn sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol leol yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon, gan ddiwallu anghenion dioddefwyr a herio troseddwy

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

Mae angen i'r system cyfiawnder troseddol roi pwyslais clir ar ostwng troseddu gyda ffocws ar feysydd atal troseddu ac aildroseddu a lleihau niwed a risg i'r cyhoedd.

Er i ni weld cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran datblygu system cyfiawnder troseddol fwy effeithiol mae cyfleoedd i wella o hyd. Mae uno Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru â'r Bwrdd Rheoli Troseddwy Integredig a datblygu cynllun cyflawni ar y cyd sy'n cynnwys amcanion a rennir ym maes cyfiawnder

troseddol a chymdeithasol, yn cynnig un cyfle o'r fath i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol.

Un enghraifft yn unig o'n dull gweithredu arloesol yw hon, dull sy'n arwain at gydberthnasau gwaith agosach â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy, gan hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu strategaeth ar y cyd i fynd i'r afael ag aildroseddu a gweithredu dull integredig o reoli troseddwy. Gyda chyfran sylweddol o'r ystad carchardai yn Ne Cymru, byddaf yn gweithio gyda llywodraethwyr carchardai a darparwyr gwasanaethau adsefydlu i sicrhau cyfleoedd ailintegreiddio effeithiol i droseddwy.

Rwyf hefyd wedi sefydlu panel craffu ar warediadau y tu allan i'r llysoedd, gan roi cyfle i bartneriaid cyfiawnder troseddol asesu a yw gorchmynion gwaredu llys yn cael eu



Cyfleusterau dalfa o'r radd flaenaf yn ardal Heddlu De Cymru

defnyddio'n gywir ac yn effeithiol.

Fe'm calonogwyd gan ein gwaith cychwynnol ac edrychaf ymlaen at weld hyn yn datblygu wrth i ni geisio gostwng aildroseddu a lleihau cyfleoedd i greu llwybrau eraill tuag at droseddu.

Sut y byddwn yn gwneud hyn:

Dioddefwyr

- Diwygio gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr er mwyn sicrhau eu bod wedi'u targedu at y rhai sydd â'r angen mwyaf.
- Cyflwyno model amlasiantaethol i gefnogi dioddefwyr, gyda mwy o gymorth i ddioddefwyr sy'n agored i niwed yn ogystal â phlant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr troseddau.
- Rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r elfen gymodi mewn canlyniadau troseddu er mwyn hyrwyddo ac atgyfnerthu 'llais y dioddefwyr' fel ffordd o ostwng aildroseddu.

Troseddwyr

- Cynyddu nifer y troseddwyr sy'n cael eu cyfeirio oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol drwy weithredu mentrau megis rhaglen Pathfinder i Ferched yn ardal Heddlu De Cymru.
- Gweithredu ar ganfyddiadau ein hadolygiad o lechyd Meddwl er mwyn datblygu llwybrau i bobl sydd â phroblemau lechyd Meddwl i'w cyfeirio at y cymorth sydd ei angen arnynt, yn hytrach na dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol yn amhriodol.
- Datblygu ac ehangu cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar er mwyn gostwng troseddu a gwella cyfleoedd bywyd i grŵp oedran 18-25.

- Gweithredu model WISDOM er mwyn gwella ymhellach ein hymateb i anghenion ein troseddwyr mwyaf peryglus a'u rheoli, gan sicrhau mai diogelwch dioddefwyr sydd wrth wraidd ein hymateb.
- Gweithredu ar ganfyddiadau'r treial cenedlaethol o brosiect "DRIVE" Bywydau Diogel gyda'r nod o ymyrryd yn gynnar wrth reoli cyflawnwyr trais domestig.

Partneriaid

- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru (Carchardai, Gwasanaeth Prawf a Gwasanaethau Wedi'u Contractio) i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau, a helpu i ddatblygu dull integredig, cydlynol o reoli troseddwyr o'r dechrau i'r diwedd a'i roi ar waith yn Ne Cymru.
- Gweithio gyda phartneriaid i wireddu manteision y Rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder Diannod.
- Diwygio a gweithredu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gomisiynir ar y cyd drwy gysoni'r ddarpariaeth yn gymuned drwy gydweithio â Byrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Iechyd Lleol, gan ganolbwyntio ar nodi a mynd i'r afael â phroblemau i droseddwyr er mwyn atal aildroseddu.
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau ymateb ar y cyd i flaenoriaethau newydd a blaenoriaethau presennol, gyda ffocws ar dargedu'r unigolion a'r teuluoedd hynny sy'n gyfrifol am y galw mwyaf ar wasanaethau lleol yn seiliedig ar fygythiad, niwed a risg.
- meithrin gwell dealltwriaeth o effeithiau yr amrywiaeth newydd yn ein cymunedau, gyda ffocws penodol ar y cymunedau cynyddol o wladolon tramor yn Ne Cymru.

5 Byddwn yn cyfrannu at y Gofyniad Plismona Strategol ac yn plismona digwyddiadau mawr yn llwyddiannus

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

Mae Heddlu De Cymru yn heddlu strategol allweddol o ran cefnogi digwyddiadau cenedlaethol mawr y tu allan i'w ffiniau, gan wneud cyfraniad sylweddol i ddigwyddiadau megis cynhadledd NATO 2014, Gemau Olympaidd 2012 a therfysgoedd Llundain 2011.

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn elfen bwysig o blismona yng Nghymru a Lloegr, sy'n nodi bygythiadau cenedlaethol allweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy a'r galluoedd sydd eu hangen i'w gwrthsefyll. Er y gall pryder ynglŷn â'r materion hyn ymhlith y cyhoedd ddibynnu ar ddigwyddiadau proffil uchel a sylw yn y cyfryngau, er mwyn eu plismona, mae angen ffocws parhaus mewn meysydd megis:

- Terfysgaeth
- Troseddu difrifol a chyfundrefnol
- Digwyddiadau sy'n ymwneud â seibrddiogelwch
- Argyfyngau Sifil
- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant

■ Trefn Gyhoeddus a Diogelwch y Cyhoedd

Mae cyfrannu at yr heriau hyn yn flaenoriaeth i'r Prif Gwnstabl a minnau ac rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i sicrhau bod Cymru yn cael gwasanaeth da drwy drefniadau cydweithredol.

Sut y byddwn yn gwneud hyn:

- Mynd i'r afael â radicaleiddio yn ein cymunedau drwy ennyn ymddiriedaeth er mwyn hyrwyddo amgylchedd lle mae gan bobl yr hyder i roi gwybod am ymddygiad eithafol.
- Cydweithredu a heddluoedd eraill a phartneriaid er mwyn nodi ffyrdd effeithlon o ymateb i ddigwyddiadau mawr.
- Nodi, deall a mynd i'r afael â bygythiadau newydd megis troseddau ar-lein a gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid i adnabod achosion o fasnachu pobl a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a tharfu arnynt.
- Sicrhau bod Byrddau Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol yn ymateb i faterion lleol.
- Gweithio gyda phartneriaid, megis y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd yng Nghymru i ddatblygu dulliau mwy effeithiol o reoli troseddwyd sy'n cyflawni troseddau cyfundrefnol.



Uwchgynhadledd NATO, 2014

6 Byddwn yn gwario'ch arian yn ddoeth er mwyn diogelu plismona yn eich cymuned

Pam bod hyn yn flaenoriaeth?

Mae heddluoedd ledled Cymru a Lloegr yn wynebu toriadau mawr yng Ngrant yr Heddlu gan y Llywodraeth Ganolog. Mae hynny'n golygu y bydd penderfyniadau anodd yn anochel, ond hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi ymrwmo i ddiogelu Plismona yn y Gymdogaeth (a elwir hefyd yn blismona cymunedol) a sicrhau bod Heddlu De Cymru yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gynnal lefel y gwasanaethau y mae ein cymunedau yn ei disgwyl.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni sicrhau bod ein hadnoddau'n lleol, wedi'u lleoli'n strategol gyda gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n canolbwyntio ar anghenion.

Sut y byddwn yn gwneud hyn:

Pobl

- Datblygu strategaeth pobl er mwyn sicrhau bod gennym y bobl gywir yn y lle cywir.
- Diogelu'r nifer angenrheidiol o swyddogion

yr heddlu lle bynnag y gallwn tra'n arbed o leiaf £71m yn y cyfnod rhwng 2010/11 a 2018/19,


- Ceisio model cynaliadwy ar gyfer plismona yn Ne Cymru yn wyneb y pwysau presennol.

Ystadau

- Datblygu strategaeth i wario llai ar adeiladau tra'n sicrhau bod gennym ystad sy'n addas at y diben lle mae ei hangen,
- Ystyried ymhellach gyfleoedd cydweithredol i gyson ein strategaethau ystadau â rhai ein partneriaid, megis y Gweithdy Fflyd ar y Cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a agorwyd yn 2015.
- Cwblhau'r gwaith o ddatblygu ein Canolfan Ymateb Cyhoeddus Golau Glas ar y cyd.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer caffael a chostau cefn swyddfa mewn cydweithrediad â heddluoedd eraill a phartneriaid yn y sector cyhoeddus.

Cyfarpar

- Gwneud defnydd mwy effeithiol o dechnoleg a chefnogi nodau Prosiect Fusion mewn meysydd megis data symudol ac iR3.



Cyfleuster Cynnal a Chadw Cerbydau ar y Cyd Tŷ Richard Thomas

Beth yw llwyddiant

Canlyniadau	Blaenoriaeth 1	Blaenoriaeth 2	Blaenoriaeth 3	Blaenoriaeth 4	Blaenoriaeth 5	Blaenoriaeth 6
Cynnydd yn nifer y bobl sy'n teimlo bod eu cymdogaeth yn lle diogel i fyw ynddo	✓	✓	✓			
Mwy o hyder i roi gwybod am droseddau ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol	✓	✓				
Canfyddiad uwch bod yr heddlu yn ymdrin â phryderon lleol	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a phartneriaid er mwyn sicrhau y byddwn yn mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gynnar	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r Sbardun Cymunedol a'r Rhwymedi Cymunedol ymhlith y cyhoedd	✓	✓	✓		✓	
Mwy o unigolion ac asiantaethau yn rhoi gwybod am Drais yn erbyn Menywod a Merched	✓	✓	✓		✓	
Mwy o ymwybyddiaeth o lefel Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant gyda dulliau gwell o roi cymorth i ddioddefwyr		✓	✓		✓	✓
Lefel uchel o foddhad ymhlith dioddefwyr troseddau					✓	
Mwy o foddhad gyda'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer dioddefwyr			✓		✓	
Lleihau'r defnydd o adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl drwy ddefnyddio cyfleusterau'n fwy priodol			✓	✓	✓	
Lleihau cyfraddau troseddu ymhlith y grŵp oedran 18-25 oed	✓			✓	✓	
Lefel is o aildroseddu drwy roi mentrau megis y Rhaglen Pathfinder i Ferched ar waith				✓	✓	
Dull system gyfan cydlynol ac integredig o reoli troseddwr ledled De Cymru	✓		✓	✓	✓	✓
Gwell dealltwriaeth o'r galw yn ardal Heddlu De Cymru	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Caiff pob maes o alw ei ddadansoddi ar sail nodi ymyriadau cynnar a chamau gweithredu buan a chadarnhaol	✓	✓	✓	✓	✓	✓



Cyllid ac Adnoddau Eraill

Mae Heddlu De Cymru yn sefydliad mawr sy'n gwasanaethu poblogaeth o 1.5m dros ardal fawr sy'n cynnwys dwy ddinas. Fel y cyfryw, mae'r heddlu yn dibynnu ar nifer o adnoddau er mwyn sicrhau bod modd rhoi'r gwasanaethau cywir i'r cyhoedd. Mae rhwymedigaeth ar y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i ddangos gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

Cyllid

Mae'r rhagolygon ariannol yn heriol iawn o hyd. Mae Heddlu De Cymru wedi colli £45m (23%) mewn grant canolog ers 2011/12. Ar ôl toriadau ariannol difrifol yn ystod 5 mlynedd gyntaf rhaglen cyni'r Llywodraeth, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y byddai gwasanaethau plismona yn cael eu gwarchod ar lefel arian parod sefydlog yn ystod 2016/17.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y cynnig hwn i "warchod" hefyd yn ystyried twf praeseptau. Yn unol â hyn, bydd gostyngiad arian parod pellach o 1.4% mewn cyllid grant ar gyfer 2017/18, sef colled o £2.2m a rhagwelir toriadau pellach hyd at o leiaf 2020/21. Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi ailddechrau ei hadolygiad o'r fformiwla ar gyfer ariannu'r heddlu ac mae'n bosibl y caiff fformiwla ariannu newydd ei rhoi ar waith ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn cyflwyno risg ariannol sylweddol bellach. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cryn dipyn o gostau yn cael eu "gwthio" tuag at gyllidebau'r heddlu - mae newidiadau diweddar o ran cyfraniadau Yswiriant Gwladol a'r Ardoll Prentisiaeth wedi cynyddu costau bron i £6m na ellir eu talu heb wneud arbedion mewn meysydd eraill.



Mae effeithiau cyfunol toriadau grant a chwyddiant wedi arwain at darged gwerth am arian o £57m rhwng 2010/11 a 2020/21. Llwyddwyd i gyflawni arbedion o £48m ac mae £4.4m o arbedion pellach yn yr arfaeth.

Er gwaethaf yr heriau hyn, lefel treth gyngor De Cymru yw'r isaf ond un o blith y pedwar heddlu yng Nghymru. Y strategaeth o ran praeseptau yw y dylid cynyddu'r dreth gyngor 5% o hyd er mwyn helpu i ddiogelu niferoedd swyddogion yr heddlu a swyddogion diogelwch cymunedol ac ymdrin â'r bwlch o ran unigolion sy'n agored i niwed.

Gogledd Cymru	£240.12
Gwent	£220.06
De Cymru	£207.85
Dyfed-Powys	£200.07

Mae ein strategaeth o gyflwyno cynnydd bach i'r praesept (tua 20c yr wythnos i lawer o aelwydydd) yn hanfodol er mwyn diogelu niferoedd swyddogion yr heddlu.

Ystadau

Mae gan Heddlu De Cymru bortffolio adeiladau mawr. Cymerwyd camau sylweddol yn ystod y blynedd diwethaf i ad-drefnu'r

ystad. Adeiladwyd carchardai newydd ym Mae Caerdydd, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr sy'n cynnig cyfleusterau dalfa o'r radd flaenaf.

Bu trefniadau cydweithio yn thema bwysig wrth ad-drefnu'r ystad. Mae cyfleuster newydd ar gyfer cynnal a chadw'r fflyd wedi agor ym Mhen-y-bont ar Ogwr mewn partneriaeth â'r Cyngor Bwrdeistref Sirol. Mae bloc y Pencadlys ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar fin cael ei gwblhau lle y lleolir Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus mwy o faint a fydd yn cynnwys staff o Wasanaeth Tân De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ac o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Caffael

Bu arweinydd strategol unigol ym maes caffael yn gyfrifol am y tri Heddlu yn Ne Cymru ers 2012 a gwnaed cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r agenda caffael cydweithredol. Ar hyn o bryd, caiff 65% o'r gwariant cyfeiriadwy nad yw'n gyflogau ar draws y tri heddlu ei wario drwy drefniadau cydweithredol. Mae Adolygiad Caffael McClelland yng Nghymru yn nodi 50% fel meincnod. Mae hyn yn golygu bod yr heddlu ymhlith y sectorau sy'n perfformio orau yng Nghymru.



Gorsaf Heddlu Heol y Frenhines

Llywodraethu ac Atebolrwydd

O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2011, a grëwyd rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cyflwynwyd newid sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r heddlu, a'r berthynas ag asiantaethau partner. Ers i mi gael fy ethol rwyf wedi gweithio gyda'r Prif Gwnstabl a phartneriaid i sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n rhoi atebolrwydd a thryloywder a hefyd y cyfleoedd i ddatblygu cyd-fentrau.

Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn fy nwyn i gyfrif am y cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau yn y cynllun hwn. Rwyf wedi ceisio datblygu perthynas adeiladol ond cadarnhaol â'r Panel ac wedi ymgysylltu â'r Panel fel "cyfaill beirniadol" mewn meysydd megis datblygu Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu a'n gwaith i gyflawni fy mlaenoriaethau.

Drwy Fwrdd Strategol y Comisiynydd rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni'r blaenoriaethau plismona gweithredol yn y cynllun hwn, ac rwyf wedi gweithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu ffyrdd effeithiol o fwrw ati i gyflawni blaenoriaethau

partneriaethau a'u monitro. Un enghraifft yw Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwy'r Integredig De Cymru, sy'n dwyn ynghyd asiantaethau o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, gan roi cyfle i ni nodi a dileu rhwystrau, yn ogystal â chreu ymagwedd fwy integredig tuag at waith cynllunio yn y dyfodol.

Rwyf hefyd wedi sefydlu Panel Craffu y Tu Allan i'r Llys, gan roi cyfle i bartneriaid cyfiawnder troseddol asesu a yw gorchmynion gwaredu llys yn cael eu defnyddio'n gywir ac yn effeithiol. Mae'r fforwm hwn eisoes yn cynnig manteision ac edrychaf ymlaen at weld y broses hon yn datblygu wrth i ni geisio cysylltu â mentrau megis prosiect Pathfinder i Ferched a'r cynllun brysbennu dalfeydd sy'n cael ei dreialu yng Nghaerdydd. Mae'r naill a'r llall yn helpu i ostwng aildroseddu a lleihau cyfleoedd i greu llwybrau eraill tuag at droseddu.

Mae ffyrdd ffurfiol eraill o sicrhau atebolrwydd yn cynnwys proses archwilio mewnol ac allanol y cytunwyd arni, sy'n asesu tîm y Prif Gwnstabl a'm tîm innau ac sy'n cael ei monitro gan Gyd-




bwyllgor Archwilio Annibynnol. Rwyf hefyd yn cyfrannu at yr adolygiadau a'r arolygiadau a gynhelir gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth ei Mawrhydi ac yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau y gweithredir ar argymhellion a nodwyd.

Caiff y cynnydd a wneir i gyflawni fy mlaenoriaethau ei fonitro drwy strwythur llywodraethu integredig sy'n galluogi fy Nirprwy Gomisiynydd a'm Comisiynydd Cynorthwyol i weithio gyda Phrif Swyddogion i ddatrys unrhyw broblemau. Bydd hyn yn adrodd i'r Bwrdd Strategol ac yn cynnig proses gydlynol o wella gwasanaethau plismona, gan nodi arbedion effeithlonrwydd a gosod y sylfeini ar gyfer darlun o blismona yn y tymor hwy.

BMae'r angen am dystiolaeth a threfniadau gwerthuso cadarn yn hollbwysig wrth ddatblygu'r strwythur hwn ac er mwyn dangos

sut y mae gweithredu ein blaenoriaethau yn gwneud gwahaniaeth i'r cyhoedd ac yn gwella gwasanaethau. Rydym yn ymrwymedig i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar y meysydd lle ceir yr angen mwyaf, gan feithrin dealltwriaeth gadarn o "Beth sy'n Gweithio" ar yr un pryd.

Byddaf hefyd yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i ymgorffori'r Cod Moeseg yn Heddlu De Cymru. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu paratoi gan y Coleg Plismona a'r bwriad yw **"set and define the exemplary standards of behaviour for everyone (police officers and police staff) who works in policing"** drwy ddychwelyd at egwyddorion creiddiol Peel ynghylch plismona. Mae hyn yn adlewyrchu ymagemdd fy hun tuag at blismona ac rydym wedi cyflwyno Pwyllgor Moeseg Annibynnol i sicrhau bod staff yn dilyn egwyddorion y Cod.



Atodiad 1: Rôl y Comisiynydd - Egwyddorion Sylfaenol a Gweledigaeth i Dde Cymru

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu 2011 rolau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer plismona yng Nghymru a Lloegr. Cred rhai pobl o hyd mai mater syml o gyflwyno Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn lle'r hen Awdurdod Heddlu ydoedd ond, mewn gwirionedd, cyflwynwyd cyfres gwbl newydd o ofynion, gan gynnwys cyfrifoldeb y Comisiynydd i gyhoeddi Cynllun yr Heddlu a Throseddu.

Pan gyhoeddais fersiwn gyntaf fy nghynllun yn 2013, addewais y byddai'n ddogfen fyw a gâi ei hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn berthnasol. Yn yr ail fersiwn nodais ei bod yn fwy na "dogfen arall yn unig"; nid oedd yn golygu gwneud addewidion afrealistig i unioni pethau yn y byrdymor, ond nodi atebion hirdymor a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth glir a phartneriaeth â phob sefydliad perthnasol.

Mae'r etholiad yn 2015 wedi rhoi sicrwydd i ni ynghylch dyfodol hirdymor rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ond mae hefyd wedi rhoi'r sicrwydd annymunol y bydd Grant yr Heddlu, a bennir gan y Llywodraeth Ganolog, yn parhau i gael ei dorri'n sylweddol bob blwyddyn. Dyna pam rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Gwnstabl, Peter Vaughan QPM, i ddatblygu Cynllun yr Heddlu a Throseddu sy'n cydnabod realiti plismona gweithredol a'r hyn sydd ei angen i wireddu gweledigaeth a rennir ar gyfer y dyfodol o

2016 tan 2021. Mae'r toriadau i Grant yr Heddlu yn gwneud pethau'n anodd i ni i gyd, ond nid yw'n golygu nad oes angen cwestiynu'r dystiolaeth na gwaith gwerthuso cadarn o hyd er mwyn nodi'r hyn sy'n llwyddo i ostwng troseddu a lleihau'r galw ar yr heddlu.

Yn wir, mae'n bwysicach nag erioed i ni hyrwyddo ymyriadau cynnar drwy gamau gweithredu buan a cadarnhaol fel ffordd o gadw ein cymunedau'n ddiogel. Dyna'r flaenoriaeth allweddol i'r Prif Gwnstabl

ac i minnau, a nodwyd yn ein datganiad ar y cyd o

Egwyddorion (tudalen

18) a dyna pam y

bwriadaf weithio

gyda phob un o'n

partneriaid i

sicrhau bod y

dulliau

presennol o

ostwng

troseddu ac atal

yn cael eu profi

drwy ddefnyddio

dulliau ymchwil

weithredol.

Mae hyn yn bwysig gan

mai dim ond pan fyddwn

yn gwybod lefel wirioneddol

troseddu, a'r effaith wirioneddol ar

ddioddefwyr a'r problemau gwirioneddol o

fewn cymunedau y gallwn ganolbwyntio

adnoddau cyfunol i weithio mewn partneriaeth

yn effeithiol i'w datrys.

Mae wedi bod yn galonogol gweld bod y


blaenoriaethau a nodwyd yn fy nghynllun

cychwynnol yn parhau i gyd-fynd yn agos â

blaenoriaethau asiantaethau partner - yn

enwedig llywodraeth leol ond hefyd

Llywodraeth Cymru, y GIG a sefydliadau yn y



System Cyfiawnder Troseddol. Rydym yn wynebu heriau tebyg, ac mewn sawl maes rydym hefyd yn gweithio tuag at yr un nodau: darparu ein gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion yr un cymunedau, gan geisio'n aml helpu a diogelu'r un unigolion sy'n agored i niwed. Drwy gyd-ddealltwriaeth o anghenion cymunedau, dull gweithredu o sicrhau canlyniadau cyffredin sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gall asiantaethau o bob sector gydweithio er mwyn cyflawni'r nodau hyn yn effeithiol.

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi'u hategu gan ein prif ddiben: gostwng ac atal troseddu. Nid yw hynny'n rhywbeth sy'n ychwanegol at yr ymateb plismona gweithredol oherwydd mae'n hollbwysig lleihau galw mewn hinsawdd sy'n golygu bod yn rhaid i ni wneud mwy gyda llai – ac sy'n rhoi'r un pwysau ar bob corff cyhoeddus arall. Yn 2014 esboniais hyn drwy ddangos bod Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu yn cynnwys pedwar chwarterl:

Y chwarterlau yw:

- Plismona a'r pethau hynny sy'n dod o dan blismona gweithredol i'w cyflawni
- Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y GIG, y Sector Gwirfoddol ac eraill i atal troseddu a lleihau niwed.
- Gweithio gydag asiantaethau eraill i wneud y System Cyfiawnder Troseddol yn fwy effeithiol yn Ne Cymru
- Nodi meysydd newydd lle mae mwy o angen er mwyn blaengynllunio'n effeithiol

Mae'r pedwerydd chwarterl hwnnw yn dod yn gynyddol bwysig. Ar y cychwyn, nodwyd effaith gweithgarwch troseddol ar y Rhynggrwyd ac anghenion ein poblogaeth gynyddol o bobl hŷn fel heriau allweddol ac

erys y rhain yn flaenoriaethau allweddol o hyd. Rydym hefyd wedi ymateb i heriau newydd – er enghraifft, mewn ymateb i adroddiad Alexis Jay ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Rotherham rhoddodd Peter Vaughan a minnau Gyd-adolygiad Strategol ar waith o bopeth a wneir gan Heddlu De Cymru yn uniongyrchol a chyda neu drwy bartneriaid er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw agwedd ar y mater hwn ei hanwybyddu yn Ne Cymru.

Arweiniodd yr adolygiad hwnnw at "Uwchgynhadledd" a fynychwyd gan Arweinwyr pob corff cyhoeddus yn Ne Cymru ac at gynllun gweithredu ar y cyd ar gyfer y dyfodol. Mae Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu 2016-2021 yn adeiladu ar y sylfeini cadarn rydym wedi'u datblygu gyda phartneriaid, yn ogystal ag ymgorffori gwerthoedd craidd cydweithredu a phartneriaeth ym mhopeth a wnawn. Rwyf yn fwy hyderus nag erioed ein bod ar y trywydd cywir i gael gwell dealltwriaeth o lefel wirioneddol troseddu yn Ne Cymru fel y gall yr heddlu a'i bartneriaid ddiwallu anghenion cymunedau yn y ffordd orau, boed hynny drwy ostwng ac atal troseddu, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu gefnogi dioddefwyr.

Bu cryn gynnydd hefyd o ran datblygu perthynas fwy effeithiol â chyrff ieuchyd drwy rannu data er mwyn llywio ac ysgogi camau gweithredu. Mae mwy o ffocws i'r ffordd yr eir ati i ostwng troseddu ac aildroseddu yn y grŵp oedran 18-25, ac ymrwymiad clir i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched drwy ein Cynllun Gweithredu ar y cyd, sydd hefyd yn adlewyrchu mentrau Llywodraeth Cymru.

Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

Rwy'n credu ers amser maith mai gwaith partneriaeth yw'r dull mwyaf effeithiol o ostwng ac atal troseddu ac mae'r gred honno

yn cael ei chefnogi yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2011. Mae'r Ddeddf yn nodi fy nghyfrifoldebau deddfwriaethol o ran y canlynol: Heddlu De Cymru, systemau cyfiawnder troseddol yn lleol a hyrwyddo gwaith partneriaeth ehangach a mwy effeithiol.

Roeddwn yn falch iawn o gael y cyfrifoldeb deddfwriaethol ychwanegol hwn am ei fod yn parhau ag egwyddor partneriaeth a nodais yn yr hyn a ddaeth yn Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a sefydlodd Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Thimau Troseddu Ieuenctid. Mae hefyd wrth wraidd Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu. Fel yr eglurwyd yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar "Justice Reinvestment", ni all yr heddlu sicrhau cymunedau diogel ar ei ben ei hun; mae gan amrywiaeth eang o sefydliadau – ac yn wir y cyhoedd – rôl i'w chwarae.

Rwyf yn fodlon hefyd ar y cynnydd a wnaed i weithio gyda'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol, gyda Chompack ar y berthynas a fydd ar waith ymhell cyn i'r Cynllun hwn ddod i rym. Mae'r cysyniad o "Gompact" yn seiliedig ar y ffaith mai grŵp amrywiol ac anghydweiddol yw sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, nad ydynt yn meddu ar nerth biwrocratiaeth y sector cyhoeddus, ond eto y gofynnir iddynt fwyfwy weithio gyda'r sector cyhoeddus neu ar ei ran.

Gan eu bod yn gweithio i gyflawni amcanion elusennol eglur gan mwyaf, sydd yn aml yn wahanol i amcanion yr asiantaethau cyhoeddus y maent yn gweithio gyda hwy, nod y syniad o "Gompact" yw llunio cytundeb clir a fydd yn galluogi sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i gydweithio er budd y cyhoedd ar sail cydbarch. Pan gyflwynais y syniad hwn yn 1997, gwelwyd rhai o'r enghreifftiau gorau yn Ne Cymru, yn bennaf ym Merthyr a Chastell-nedd, ac mae'n dda gennyf fod y sector yn Ne Cymru wedi bod yn awyddus i adeiladu ar y profiad hwnnw.

Fe'i harweiniwyd gan Gynghorau Gweithredu Gwirfoddol neu Gynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol yn y saith ardal awdurdod lleol yn Ne Cymru, gan ddiweddu mewn cynhadledd ym mis Hydref 2015 gyda'r nod hefyd o roi cyfle i'w sylwadau ar y fersiwn drafft o Gynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu 2016-2021 gael eu hystyried.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau gwirfoddol sydd â ffocws penodol ar y System Cyfiawnder Troseddol ac ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed, a chyda Landlordiaid Cymdeithasol ar leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yng nghyd-destun cyni cyllidol lle mae'r heddlu wedi dioddef ac yn parhau i ddioddef, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Bellach, rydym yn wynebu'r posibilrwydd o doriadau ariannol llym o fewn llywodraeth leol a allai gael effeithiau hynod o niweidiol, yn arbennig ar wasanaethau cymunedol a gwasanaethau ieuenctid. Mae'n amlwg, er mwyn wynebu gwir natur heriau ariannol, fod yn rhaid i'r heddlu a'i bartneriaid gydweithio'n agos.

Felly, ni fydd llwyddiant o ran cyflawni fy mlaenoriaethau yn ymwneud â phenawdau bachog ond â gwaith partneriaeth adeiladol, parhaus sy'n ceisio sicrhau buddiannau hirdymor i'r cymunedau yn Ne Cymru. Parheir â'r fath bwyslais ar bwysigrwydd dull cydgysylltiedig, doethach o weithio fel elfen allweddol sy'n rhedeg drwy'r cynllun hwn. Credaf yn gryf, ar adeg pan fo'r sefyllfa ariannol yn fwyaf heriol, fod angen i ni gydweithio er mwyn bod yn fwy effeithiol o ran gwella ansawdd bywyd ar gyfer ein cymunedau a'r unigolion yn y cymunedau hynny.

Yn ystod cyfnod blaenorol o doriadau llym mewn gwariant cyhoeddus yn yr 1980au, ymgiliodd llawer o sefydliadau i'w seilos eu hunain a thynnu'n ôl o gyd-fentrau. Y tro hwn

mae'n wahanol. Yn lle hynny, mae arweinwyr yn y rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus rydym yn gweithio gyda hwy yn dweud "yn ystod cyfnod anodd mae angen i ni wneud mwy gyda'n gilydd." Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni mwy nag y gallwn ei gyflawni ar ein pennau ein hunain. Mae sefydliadau ym mhob sector bellach yn teimlo gwyntoedd oer toriadau un flwyddyn ar ôl y llall ac mae'n dorcalonus gweld gwasanaethau rydym yn eu gwerthfawrogi yn cael eu torri am nad oes unrhyw ffordd arall o fantoli'r cyfrifon. Os byddwn yn "crebachu", mae'n rhaid i ni grebachu gyda'n gilydd, gan reoli ar y cyd effaith y toriadau yn hytrach na gweithredu ar ein pennau ein hunain.

Un o rannau pwysicaf fy rôl yw meithrin cydberthnasau ag asiantaethau partner er mwyn nodi amcanion cyffredin a goresgyn rhwystrau i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol. Mae'r cyfarfodydd a gaf ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn parhau i fod yn amhrisiadwy o ran rhoi gwell dealltwriaeth i mi o gymhlethdod y dirwedd partneriaethau ledled De Cymru a chytuno ar ffyrdd y gallwn fod yn fwy effeithiol.

Rwyf hefyd yn awyddus i weithio gyda'n hynadon ledled De Cymru a dysgu o'r hyn y maent wedi'i weld a'u profiad yn y llys. A cheir datblygiadau megis y cynlluniau cyfiawnder adferol peilot yn Llys y Goron, Caerdydd y gallwn ddysgu cryn dipyn ohonynt.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru wedi cael ei uno â Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwy'r De Cymru bellach – yr uno cyntaf yng Nghymru a Lloegr – gan ddwyn ynghyd y rhai y mae ganddynt ran allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod y System Cyfiawnder Troseddol yn gweithio'n dda yn lleol i bobl De Cymru. Rwyf wedi sefydlu Panel sy'n craffu ar warediadau y tu allan i'r llys – ffyrdd o ymdrin â throsedd yn gyflym drwy gyfrwng cosbau ar unwaith neu ymyriadau – er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac nad

ydynt yn "opsiwn hawdd". Mae'r Panel yn cynnwys Dirprwy Gadeirydd pob un o'r Meinciau Ynadon yn Ne Cymru yn ogystal ag erlynwyr, staff y llys a Cymorth i Ddiodefwyr. Mae'n grŵp cadarn sy'n ystyried sampl o achosion ac sy'n rhoi'r union sicrwydd sydd ei angen ar bobl er mwyn iddynt fod â hyder yn y system.

Rwyf wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Llysoedd – er enghraifft er mwyn darparu cyfleusterau rhoi tystiolaeth drwy deledu cylch cyfyng yng Nghastell-nedd – a chyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y tri charchar sydd wedi'u lleoli yn ein hardal a chyda Working Links sydd bellach yn "berchen" ar Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru.

Drwy fforymau o'r fath, rwyf wedi meithrin dealltwriaeth o'r prosesau y mae'n rhaid i bartneriaid fynd drwyddynt yn unigol ac ar y cyd er mwyn nodi eu blaenoriaethau a'r pwysau a wynebir ganddynt wrth ddarparu gwasanaethau. Dyna pam rwyf yn gwerthfawrogi ymgysylltu ac ymrwymiad arweinwyr a phrif weithredwyr pob un o'r saith awdurdod lleol. Mae Peter Vaughan a minnau yn cyfarfod â hwy'n rheolaidd, ac mae ein cyfarfodydd yn gynyddol ymarferol ac yn canolbwyntio ar weithredu ar y cyd.

Thema allweddol sy'n sail i'n gallu i gydweithio yw'r angen i rannu gwybodaeth. Ynghyd â'r Prif Gwnstabl rwyf wedi ceisio hyrwyddo 'dull mentro rhannu' a fydd yn galluogi ein hymarferwyr i ddarparu gwasanaethau i gymunedau yn fwy effeithiol a gyda llai o adnoddau.

Roeddwn wir yn credu fy mod wedi delio â'r amharodrwydd i rannu data pan fynais gynnwys cymal yn y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn, a nododd heb unrhyw amheuaeth fod rhannu data er mwyn gostwng ac atal troseddu yn ddiben dilys. Wrth gwrs, ni ellir rhannu data yn ddiofal a heb feddwl. Ond nid yw'n dderbyniol dweud "os oes amheuan

peidiwch â'i rhannu". Yn hytrach, dylech ofyn "Beth galla' i ei rannu?" neu "Sut galla' i sicrhau'r cydbwysedd cywir" rhwng rhannu gwybodaeth er mwyn atal troseddu a'r angen i ddiogelu data personol.

Drwy weithio mewn partneriaeth mae ffyrdd y gallwn helpu ein gilydd. Er enghraifft, os bydd y gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd gyda chydweithwyr yn y GIG yn llwyddo i ostwng troseddu ledled De Cymru, sicrheir arbedion i'r heddlu a'r gwasanaeth iechyd. Yn achos yr heddlu, bydd yn rhyddhau amser swyddogion, gan eu galluogi i fod allan yn patrolio'r strydoedd yn lle paratoi ffeil ar gyfer y llys. Yn achos y gwasanaeth iechyd, caiff nifer y galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans ei lleihau, a fydd yn creu lle mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys neu, o leiaf, yn atal y pwysau ar wasanaethau iechyd rhag gwaethygu.

Mae gwaith yr Athro Jonathan Shepherd yn rhoi tystiolaeth bod gwaith partneriaeth o'r fath yn arwain at fanteision sylweddol i bawb dan sylw ac i'r cyhoedd. Mae'r cydweithrediad sydd wedi datblygu wrth gefnogi'r Man Cymorth yn Abertawe yn dangos bod y dull gweithredu hwn yn cynnig manteision enfawr. Rwyf yn falch iawn ein bod bellach wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â chydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ei genhadaeth yw lleihau niwed o ran iechyd a'n cenhadaeth ninnau yw gostwng troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, dod o hyd i atebion ymarferol o ran lleihau trais, mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, ymdrin â phroblemau alcohol gormodol, ymdopi ag iechyd meddwl, a nifer o feysydd polisi mawr eraill sy'n fuddiol iawn o ran iechyd ac sy'n fuddiol iawn o ran diogelwch y cyhoedd.

Rydym am ostwng cyfraddau troseddu ymhlith y grŵp oedran lle y ceir y lefel uchaf o weithgarwch troseddu – sef pobl ifanc rhwng 18 a 25 oed. Ar yr un pryd mae pob awdurdod

lleol yn Ne Cymru wedi mynegi uchelgais i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a rhoi gwell cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal. At hynny, mae asiantaethau gwahanol yn ceisio lleihau effaith camddefnyddio sylweddau, alcohol, problemau iechyd meddwl a digartrefedd. Mae'r gwaith hwn yn arafach nag yr oeddwn wedi gobeithio – yn bennaf oherwydd y toriadau sy'n effeithio ar bob partner – ond mae'n dal i fod yn amcan hollbwysig ac rwy'n credu ein bod yn gwneud cynnydd.

Heb fynd yn rhy bell i dir peryglus cyffredinol, yn ddiau ceir cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng ein grwpiau "targed". Mae'n gwbl amlwg y gallwn wneud mwy gyda'n gilydd nag y gallwn ei wneud ar ein pen ein hunain, yr arbennig yn ystod cyfnodau anodd. Mae ein ceisiadau llwyddiannus am arian o Gronfa Arloesi'r Heddlu yn golygu y gallwn fanteisio ar adnoddau newydd i helpu i fynd i'r afael â'r meysydd canlynol: pobl ifanc 18-25 oed, trais yn erbyn menywod a merched a throseddau treisgar.

Mae cydweithio â meddygon teulu wedi cyflymu drwy brosiect IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch), sy'n amlygu manteision gwirioneddol. Lansiwyd y prosiect hwn i roi hyfforddiant a chymorth i feddygon teulu er mwyn adnabod ac atgyfeirio achosion o gam-drin domestig.

Bydd y gwaith rydym yn ei wneud gyda phartneriaid i gynllunio ac ariannu gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig ar y cyd yn anelu at sicrhau sefyllfa lawer mwy cynaliadwy iddynt, ac mae'r rhaglen arloesol i fynd i'r afael â'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig, a gaiff ei threialu ym Merthyr a Rhondda Cynon Taf, yn cynnwys ffocws cadarn ar atal – atal y camdriniwr rhag cyflawni trais yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar helpu dioddefwyr ar ôl iddo ddigwydd.

Dim ond ychydig o enghreifftiau amlwg yw'r rhain o fanteision cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Nid yw'n hawdd a gall fod yn boenus o araf yn ystod y camau cynnar, ond dyma'r dull mwyaf effeithiol o weithredu yn yr hirdymor. Wrth gwrs, nid ydym yn disgwyl i un o swyddogion yr heddlu oedi cyn ymateb i ddigwyddiad treisgar, achos o ladrata o dŷ neu ddamwain car.

Dyma rai o'r achlysuron pan fyddwn yn dibynnu ar agwedd "gallu gwneud" a greddfau cyflym swyddog, a hir oes i hynny. Ac eto, os bydd y dull partneriaeth yn parhau i arwain at dueddiadau troseddu ac aildroseddu tuag i lawr, yn enwedig o ran yr achosion mwyaf difrifol, bydd yn creu rhywfaint o hyblygrwydd i swyddogion yr heddlu yn ein hardal.

Yn ddiau, mae ei angen arnynt wrth iddynt ymdopi ag effaith "Cyni Cyllidol" ac ar yr un pryd geisio parhau â'r duedd tuag i fyny o ran cyfran y troseddau lle ceir canlyniad da o ran cosb/darganfod.

Cyfnod Anodd

Mae'n rhaid i ni gydweithio er mwyn gwneud pethau'n well, yn gallach ac yn fwy effeithlon, gyda llai. Nid ydym am wneud mwy gyda llai o swyddogion yr heddlu – y mae nifer y swyddogion wedi lleihau o 3,400 i 2,812, ond mae'n rhaid i ni wneud hynny. Oherwydd y penderfyniadau cynnar a wnaed gan y Prif Gwnstabl mewn ymateb i'r 'Cyni Cyllidol' crëwyd rhywfaint o hyblygrwydd, a bydd cynnydd bach yn nifer swyddogion yr heddlu mewn swydd yn 2015-2016 ond bydd yn anodd cynnal hynny yn y dyfodol os bydd y gostyngiadau yng Ngrant yr Heddlu mor llym â'r rhai a ragamcanwyd hyd yma.

Mewn cyfnod anodd mae'r ddihareb "gwell rhwystro'r clwy na'i wella" yn synnwyr cyffredin – mae'n angenrheidiol yn hytrach na bod yn ddymunol. Os yw "cyni cyllidol" yn ein gorfodi i feddwl yn greadigol efallai y dylem wrando ar y cyngor i "beidio â gwastraffu argyfwng".

Wrth lunio'r gyllideb ar gyfer y llynedd ac eleni, cafodd y Prif Gwnstabl a minnau drafodaethau dwys ynghylch nifer y staff a chydbwysedd y gweithlu wrth i ni geisio mantoli'r cyfrifon. Yn fy marn i, mae'r toriadau yng Nghyllideb y Swyddfa Gartref a chyllid yr heddlu yn rhy lym ac maent wedi achosi cryn niwed eisoes. Fodd bynnag, ar ôl nodi hynny nid wyf yn bwriadu gwastraffu amser yn cwyno yn ei gylch. Rwy'n canmol y ffordd mae'r Prif Gwnstabl yn gweithredu dros y tair blynedd diwethaf, wrth iddo ymdopi â'r toriadau wedi'u blaenlwytho yn yr Adolygiad o Wariant.

Mae ef a'i dîm wedi bwrw ymlaen â'r gwaith o ostwng cyfraddau troseddu a diogelu'r cyhoedd hyd yn oed yn ystod cyfnod anodd a byddaf yn dilyn ei esiampl. Fodd bynnag, ni allwch anwybyddu'r ffaith bod nifer swyddogion yr heddlu wedi lleihau o 3,400 i 2,812 ar hyn o bryd, sef y nifer isaf erioed i Heddlu De Cymru. Mae rheoli effeithiol yn golygu y byddwn yn gweld cynnydd bach yn nifer y swyddogion yn 2015-2016 ond mae'r rhagolygon yn yr hirdymor yn dal i fod yn ddu.

I'r ddau ohonom, colli swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yw'r dewis olaf, pan fetho popeth arall, a byddwn yn sicrhau y collir cyn lleied o staff â phosibl. Ond mewn gwasanaeth lle mai prif ased a phrif gost yw ein staff, mae rhywfaint o ostyngiad yn ganlyniad anochel y toriadau dwfn hyn gan y Llywodraeth ond mae'n rhaid i ni ymateb o hyd i flaenoriaethau plismona yn y gymdogaeth a chyfrifoldebau strategol yr heddlu mwyaf yng Nghymru. Ni ellir osgoi'r her honno ac ni fwriadwn ddilyn rhai heddluoedd mewn mannau eraill a chefnu ar blismona yn y gymdogaeth.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn glir yn ein meddwl nad yw'n syniad da rhoi rhagor o bwerau i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu oherwydd gall hynny wneud y gwahaniaeth rhwng Swyddog Cymorth Cymunedol a swyddog gwarant yn annelwig.

Rwy'n parhau i gefnogi dymuniad y Prif Gwnstabl i beidio â rhoi mwy o bwerau iddynt mewn ffyrdd a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth bresennol a dyna pam rydym wrthi'n adolygu rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol a'r ffordd y cânt eu defnyddio yn Ne Cymru ar hyn o bryd yn lle hynny.

Rydym yn benderfynol o ddefnyddio'r 205 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i'r eithaf ac rydym yn gwerthfawrogi ymrwymiad parhaus Gweinidogion Llywodraeth Cymru i hyn a mentrau eraill sy'n ein helpu i wasanaethau ein cymunedau.

Mae gennyf fan dechrau cadarn ar gyfer y gwaith hwn: mae cyfarfodydd â'r holl grwpiau gwahanol o gynghorwyr yn ein saith awdurdod yn Ne Cymru bob amser yn esgor ar drafodaethau heriol ond, bob amser, ceir gwerthfawrogiad gwresog o'r tîm plismona lleol a chefnogaeth i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y gymuned leol. Mae hyder yn llawer uwch nag rwyf wedi'i weld unrhyw bryd mewn mwy na 45 o flynyddoedd o wasanaeth cyhoeddus.

O ran proffesiynoldeb gwaith plismona, rwy'n cefnogi'n gryf y weledigaeth a nodwyd gan Peter Vaughan, pan gafodd ei benodi'n Brif Gwnstabl, sef y dylai Heddlu De Cymru fod "yn broffesiynol, yn falch ac yn gadarnhaol" a sicrhau mai'r heddlu yw'r "gorau o ran deall anghenion ein cymunedau ac ymateb iddynt". Mae'r weledigaeth honno wedi llywio cyfnod o welliannau mewn perfformiad, lefelau uwch o foddhad ymhlith dioddefwyr a mwy o hyder ymhlith y cyhoedd yn ystod cyfnod o doriadau sylweddol yn nifer swyddogion yr heddlu a chyllid. Manylir ar hyn mewn adran ddilynol.

Er enghraifft, un o'r gwelliannau pwysicaf a welwyd oedd penderfyniad Heddlu De Cymru i newid y ffordd y mae'n cofnodi troseddau er mwyn cofnodi troseddau "yn y tarddle".

Golyga hyn, yn lle ymchwilio i ddigwyddiadau ac wedyn eu cofnodi fel y digwyddai yn flaenorol, fod Heddlu De Cymru bellach yn cofnodi'r drosedd pan roddir gwybod am y digwyddiad. Mae'r broses o wella yn parhau ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos y lefelau uchaf o foddhad ymhlith dioddefwyr y mae Heddlu De Cymru wedi'u gweld erioed.

Rydym yn cael budd o weithgarwch ymgysylltu cadarnhaol â'r Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Bu Peter Vaughan, fel ei ddau ragflaenydd, yn ddiysgog ac yn dra egwyddorol wrth "ddilyn y dystiolaeth i ble bynnag y mae'n arwain" er mwyn ymdrin â phroblemau o'r gorffennol. A lle y ceir beirniadaeth ddilys dylid ymateb iddi drwy unioni pethau yn gyflym ac yn broffesiynol.

Rwy'n dal i amau dull gweithredu'r Arolygiaeth yr ymddengys ei bod yn enwi'r Heddlu neu'r Heddluoedd wrth ganmol ond yn ymatal rhag eu henwi wrth feirniadu. Dylai'r Arolygiaeth, Gweinidogion ac unrhyw un arall fod yn benodol wrth feirniadu oherwydd ymddengys fod beirniadaeth ddienw yn maeddu enw da pob un o'r 43 o Heddluoedd. Mae'n rhaid i mi ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau yn aml drwy nodi pan na fydd adroddiadau cenedlaethol penodol ar "ddiffygion yr heddlu" yn berthnasol i Dde Cymru. Os bydd Heddlu De Cymru yn haeddu cael ei feirniadu rydym am iddi fod yn benodol er mwyn i ni allu mynd i'r afael â'r broblem yn uniongyrchol. Nid yw anhysbysrwydd na chyffredinol yn iach felly mae angen i hyn newid, ond mae datganiadau'r Arolygiaeth i'r wasg yn parhau i amlygu'r un methiannau ar hyn o bryd.

Ar ddiwedd mis Chwefror 2015 cyhoeddodd yr Arolygiaeth ddatganiad i'r wasg a oedd yn nodi bod defnyddio gynau Taser ar blant yn broblem fawr. Roedd y niferoedd yn amrywio o Heddlu i Heddlu ac yn Ne Cymru nid oedd yr un unigolyn o dan 16 oed wedi cael ei saethu â gwn taser yn 2013 na 2014. Yn wir, nid oedd yr

un gwn taser wedi'i saethu at unigolyn o dan 18 oed yn Ne Cymru. Felly, o ran adroddiad yr Arolygiaeth ei hun, roedd y datganiad i'r wasg a'r cyhoeddusrwydd a deilliodd ohono wedi gwneud cam â Heddlu De Cymru

Fodd bynnag, mae fy mhrif feirniadaeth yn mynd yn ddyfnach na hynny. Y cwestiwn y dylid ei ofyn mewn gwirionedd yw a yw'r budd yn drech na'r peryglon: Rwy'n argyhoeddedig y bydd defnyddio gwn Taser – er enghraifft i saethu unigolyn sy'n dal cyllell neu drosol - yn aml yn peri llai o risg a/neu'n achosi llai o niwed gwirioneddol na defnyddio baton neu fath arall o ddull atal corfforol.....i'r troseddwr yn ogystal â'r cyhoedd a swyddogion yr heddlu.

Gallaf ddychmygu amgylchiadau lle y byddwn yn canmol swyddogion am ddefnyddio gwn Taser i saethu person ifanc – yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae defnyddio ystadegau heb ddadansoddi'r cynnwys a'r risgiau mewn ffordd gyson yn hollol amhriodol ac yn anghyson â dull o lunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Wedi dweud hynny, rwy'n gwerthfawrogi'r trafodaethau a gawsom gyda'r Arolygiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf – lle y mynegwyd cefnogaeth benodol i'r ffordd rydym wedi mynd ati i leihau Trais yn erbyn Menywod a Merched a sylwadau ynglŷn ag effeithlonrwydd y gwasanaeth a roddir gan Heddlu De Cymru – ond mae problem yn codi gyda'r ffordd y mae adnoddau wedi cael eu cymryd o Grant yr Heddlu i ariannu gwaith arolygu ychwanegol. Mae arolygiadau yn llyncu cryn dipyn o amser swyddogion gweithredol ac weithiau maent yn mynd yn groes i flaenoriaethau lleol.

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu 2011 y dylai polisiâu ac arferion pob heddlu lleol gael eu llywio gan Gynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu – ac eto, nid yw'r Arolygiaeth fel arfer yn mesur yr Heddlu yn erbyn y graddau y

mae'n cyflawni Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu. Er ei bod yn parhau i arolygu yn erbyn meini prawf y penderfynwyd arnynt yn ganolog mewn ffordd sy'n mynd yn groes i nod datganedig y Llywodraeth i greu system o atebolrwydd lleol, rwy'n falch o nodi i ni weld mwy o gydnabyddiaeth o flaenoriaethau lleol ac effeithiolrwydd wrth gyflawni'r blaenoriaethau hynny yn ddiweddar.

Mae pryderon hefyd ynghylch gwaith Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Unwaith eto, ceir perthynas adeiladol a chadarn â Chomisiynydd Cymru, Jan Williams, ond mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu wedi cael arian ychwanegol drwy frigidorri Grant yr Heddlu ac mae'r ffaith y caiff cyfran lai o ymchwiliadau eu goruchwyllo gan Gomisiynwyr yn peri pryder i mi. Ymddengys nad oes gan rai o staff y Comisiwn fawr ddim dealltwriaeth o'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2011 ac ymddengys fod nifer yr ymchwilwyr â lefel is o hyfforddiant a phrofiad wedi cynyddu.

Roeddwn ymhlith y rhai a ymgyrchodd o blaid creu comisiwn cwynion annibynnol i'r heddlu ac felly rwy'n llwyr gefnogi'r rôl y mae'r corff hwn yn bodoli i'w cyflawni ond rwy'n pryderu ynghylch y newidiadau y mae Gweinidogion wedi penderfynu arnynt yn ystod y tair blynedd diwethaf yr ymddengys eu bod yn annhebygol o sicrhau'r manteision a fwriadwyd.

Yn lle "Comisiwn" gyda Chadeirydd annibynnol a Chomisiynwyr unigol sydd â chylch gorchwyl personol dros Gymru (a thros bob rhanbarth yn Lloegr) cynghorir y Llywodraeth y dylai ystyried model "Ombwdsmon". Credaf mai camgymeriad yw hynny gan y bydd popeth yn nwylo unigolyn – yr Ombwdsmon – a chaiff Comisiynydd Cymru ei ddisodli gan was sifil na fydd ganddo gylch gorchwyl personol nac atebolrwydd y Comisiynydd.

Ychwanegu Gwerth

Mae'r drafodaeth gyhoeddus ynghylch plismona wedi cael ei gorsymleiddio'n ddifawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae hynny'n broblem. Credaf ei bod yn beryglus mabwysiadu dull rhy syml o ddiffinio'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan yr heddlu.

- Mae'n rhaid i swyddogion yr heddlu ymateb i amrywiaeth enfawr o sefyllfaoedd, yn aml fel y gwasanaeth y mae pobl yn troi ato yn niffyg popeth arall neu wrth ddelio â phroblemau y dylai gwasanaethau eraill ddelio â hwy.
- Ond prif ddiben yr heddlu, fel y'i nodwyd gan Syr Robert Peel ac y'i hailddatganwyd yn ddiweddar gan yr Ysgrifennydd Cartref presennol, Gweinidog yr Heddlu a minnau, yw gostwng troseddu – gostwng cyfraddau troseddu ac aildroseddu.
- Fodd bynnag, ni all yr heddlu ostwng troseddu ar ei ben ei hun. Dangosodd adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder (2010) nad yw'r rhan fwyaf o'r ffactorau sbarduno sy'n effeithio ar lefelau troseddau yn dod o fewn cylch gwaith yr heddlu nac, ychwaith, y system cyfiawnder troseddol.

Felly, yr heddlu mwyaf effeithiol fydd yr un sy'n perfformio orau o ran gweithgarwch plismona uniongyrchol a datblygu cynghreiriau strategol a thactegol ag amrywiaeth o gyrff cyhoeddus a chyrff eraill; er mwyn gostwng troseddu a sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogel ac yn hyderus. Bydd yn rhoi gwerth ar ymrwymiad personol, dawn ac arweinyddiaeth yng nghyd-destun cydweithredu a phartneriaeth.

Mae gwaith gwasanaeth yr heddlu yn hynod gymhleth ac yn cyffwrdd â llawer o agweddau annisgwyl ar weithgarwch dynol. Yn aml yr heddlu yw'r gwasanaeth y mae aelodau o'r cyhoedd yn troi ato yn niffyg popeth arall a phan na allant gael cymorth yn unman arall ac mae dipyn yn llai nag 20% o'r galwadau i'r

heddlu yn ymwneud â throseddu erbyn hyn. Felly mae'r neges gan yr Ysgrifennydd Cartref bod "llai o droseddu felly mae angen llai o swyddogion yr heddlu" yn seiliedig ar gamddealltwriaeth sylfaenol o'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan yr heddlu. Mae hefyd yn seiliedig ar gamddealltwriaeth ynglŷn â sut i atal troseddau lleol.

Mae cylch gwaith eang fy rôl – a nodir yn Neddf 2011 a Llŵ'r Swydd – yn rhoi darlun strategol o'r dirwedd hon i mi, gan fy ngalluogi i nodi'r cysylltiadau a rannwn â chynghorau a chyrff ieuchyd a chyda ein cymunedau. Mae'n ffaith mai'r bobl rydym yn ceisio eu helpu yw'r un bobl yn yr un cymunedau yn aml felly mae angen i ni achub ar y cyfleoedd sy'n bodoli i ddefnyddio'r cysylltiadau hyn yn fwy effeithiol.

Hyd yn oed os bydd yn arwain at gynnydd ymddangosiadol yn nifer y troseddau, rydym am annog unigolion i roi gwybod am ddigwyddiadau yn gyflym ac yn hyderus, yn enwedig o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant, trais domestig, troseddau casineb a throseddu yn erbyn pobl hŷn; yn ogystal â throseddau "cudd" megis trais "ar sail anrhydedd", fel y'i gelwir, ac anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae masnachu pobl a gwahanol fathau o gamfanteisio yn dod yn gynyddol amlwg mewn cymdeithas ac mae'n bwysig annog y cyhoedd i roi gwybod am eu hamheuron a bod yr heddlu yn cymryd camau mewn ymateb iddynt.

Un maes lle y gallaf ychwanegu gwerth yw drwy fy ngallu i ariannu mentrau partneriaeth, megis y Gronfa Gostwng Troseddu (y Gronfa Diogelwch Cymunedol gynt) a chefnogi Timau Troseddwy'r Ifanc. Gwyddom fod cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn cael ei dorri, ac rydym yn ofni y bydd toriadau pellach, felly byddwn yn wynebu penderfyniadau anodd ond byddaf yn gwneud fy ngorau glas i ddiogelu'r arian hwn hyd y gellir ac yn mynd ati i sicrhau ei fod yn cael ei anelu at gyflawni fy mlaenoriaethau. Byddaf yn ceisio chwarae fy rhan i ariannu'r partneriaethau a chwarae rhan lawn, gyda'm Dirprwy Gomisiynydd Sophie Howe a'm

Comisiynydd Cynorthwyol John Rose, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol.

Rwyf wedi canolbwyntio ar y pethau y gallwn eu gwneud gyda'n gilydd er mwyn gostwng troseddu a chreu cymunedau mwy diogel, ond rwyf hefyd am dalu teyrnged i'r Prif Gwnstabl a'i dîm; o brif swyddogion i swyddogion yr heddlu ar lefel y stryd, o swyddogion ditectif i swyddogion cymorth cymunedol yr Heddlu a'r holl aelodau eraill o staff, am y gwasanaeth plismona o ansawdd uchel y maent yn ei ddarparu i'r cyhoedd yn Ne Cymru.

Yn benodol, mae'r dystiolaeth bod boddhad ymhlith dioddefwyr yn parhau i wella yn bwysig iawn. Ni ddylem gymryd y gwaith a wneir o ddydd i ddydd yn ganiataol, a hynny ym mhob tywydd ac o dan bob math o amgylchiadau, y mae rhai ohonynt yn anodd ac yn heriol iawn. Ni ddylid cymryd neb yn y tîm yn ganiataol ac felly hoffwn gadarnhau mai cyflogwr "Cyflog Byw" yw Heddlu De Cymru. Mae'n bwysig bod y Prif Gwnstabl a minnau yn cael ein gweld yn cefnogi'r tîm sy'n cyfrannu cymaint at y gwaith o sicrhau bod De Cymru yn Ddiogel.

Credaf ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir ynghylch sut i adlewyrchu Deddf Diwygio'r Heddlu 2011 yn y ffordd y mae Heddlu De Cymru yn gweithredu. Un sefydliad â dwy "Gorfforaeth Undyn", a ddiffinnir yn y Ddeddf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, ydyw. Y Prif Gwnstabl yw cyflogwr pawb heblaw am fy nhîm cymorth uniongyrchol ond mae'n ofynnol i bob cyflogai roi'r gwasanaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar bob un ohonom er mwyn cyflawni ein rolau gwahanol ond ategol; gan ddilyn yr egwyddorion rydym wedi cytuno arnynt ac a nodir mewn "Dogfen Ddilysnodau" sydd ar gael i staff. Y rhan fwyaf o'r amser ni fydd ein staff yn gweld unrhyw wahaniaeth yn yr hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud, heblaw ei fod yn dod o dan bartneriaeth arwain gydlynol a chydlynus gyffredinol y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd.

Fel y nodais yn gynharach, nid yw newyddion ariannol drwg na heriau anodd yn newid ein huchelgais na'n bwriadau. Rydym yn bwriadu gwneud y canlynol: adeiladu ar y sylfeini ardderchog a osodwyd eisoes, parhau i ddatblygu ein dull partneriaeth o atal a gostwng troseddu a gwella ansawdd bywyd o fewn ein cymunedau.

Rwy'n cymryd cyfrifoldeb am Gynllun yr Heddlu a Throseddu 2017-2021 fel y'i cyhoeddwyd, ond, yn anad dim, dogfen bartneriaeth ydyw. Rwy'n ddiolchgar am ymdrechion pob aelod o'm tîm drwy gydol y flwyddyn ac yn enwedig i Sophie Howe a John Rose. Bu ymgysylltu personol Peter Vaughan a'r Dirprwy Brif Gwnstabl Matt Jukes yn bwysig iawn i ni, ac mae ei dîm ef a'm tîm innau wedi cydweithio'n gyson a gyda brwdfrydedd a rennir i "wneud pethau'n iawn". Dyna pam rwy'n falch iawn bod Peter yn gwneud cyfraniad personol at y cynllun hwn drwy gyfrannu adrannau sy'n nodi ein bod yn rhannu ymrwymiad i wella bywydau'r cymunedau yn Ne Cymru drwy ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol ac effeithlon.

Mae'r cynllun hwn ar ei newydd wedd yn edrych ymhellach i'r dyfodol er mwyn rhagweld yr heriau o'n blaenau ac mae'n parhau â'n taith tuag at wireddu ein hymrwymyiadau a'n dyheadau dros bobl De Cymru. Mae hefyd yn dangos uchelgais gyffredin Heddlu De Cymru i fod yn un endid lle mae rolau penodol y ddwy Gorfforaeth Undyn – sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl – yn cefnogi ac yn ategu ei gilydd er mwyn sicrhau mai Heddlu De Cymru yw'r gorau o ran gwasanaethu'r cyhoedd a gostwng troseddu drwy gydweithredu ag amrywiaeth eang o sefydliadau partner. Bu'r tair blynedd diwethaf yn gyfnod anodd i swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu ac aelodau fy nhîm. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniad a'u hymrwymiad.

Atodiad 2: Ymyrryd yn Gynnar; Gweithredu Buan a Chadarnhaol – Model Heddlu De Cymru

Wrth i ni gydweithio i ddatblygu Cynllun yr Heddlu a Throseddu ar gyfer De Cymru dros y tair blynedd diwethaf, mae dwy egwyddor weithredol wedi dod i'r amlwg ym mhopeth a wnawn...

Y gyntaf yw egwyddor cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r heddlu yn ymdopi'n wych â phopeth a wyneba, ond mewn cyfnod o gyni cyllidol, mae'n hollbwysig lleihau'r galw er mwyn ymdopi gyda llai o adnoddau. Mae'r hyn sy'n dylanwadu ar lefel troseddu mewn unrhyw gymuned y tu hwnt i'r heddlu o weithredu ar ei ben ei hun, felly mae gweithio mewn partneriaeth â chydweithredu, sef y ffordd gywir erioed o sicrhau diogelwch y gymuned, bellach yn rheidrydd strategol ganolog. Gyda'n gilydd mae angen i ni ddatblygu patrwm o weithredu buan a chadarnhaol. Mae a wnelo hyn ag atal a chynllunio ar gyfer yr hirdymor, ac mae'n hynod galonogol bod sefydliadau pwysig ym maes llywodraeth leol, iechyd a'r gwasanaeth tân a'r sector gwirfoddol a chymunedol wedi ymgysylltu â ni mewn ffordd mor gadarnhaol.

Yr ail yw egwyddor ymyrryd yn gynnar; gweithredu buan a chadarnhaol.

Mae ymyrryd yn gynnar yn egwyddor sydd wedi cael ei chydabod ers blynyddoedd lawer, yn wir ers cyn i lawer o weithwyr proffesiynol heddiw gael eu geni, ond mae'n anodd o hyd ei hymgorffori mewn arfer sefydliadol a phroffesiynol o ddydd i ddydd. Felly hefyd y mae cysoni'r angen am weithredu buan a chadarnhaol â'r angen am waith cynllunio hirdymor gwirioneddol, yn bennaf am fod y diwylliant proffesiynol a'r diwylliant sefydliadol yn wahanol iawn yn y sefydliadau y mae angen iddynt gydweithio.

Ar un lefel, mae "ymyrryd yn gynnar" yn syml: Os na wnawn fynd i'r afael â phroblemau yn ystod mil diwrnod cyntaf bywyd plentyn bydd ei gyfleoedd wedi'u cyfyngu am oes ac mae'n mynd yn fwyfwy tebygol y bydd problemau cymdeithasol niweidiol a throseddu yn dod yn rhan o'i fywyd. Nid mewnwelediad newydd yw hwn: Yn ein hardal, nododd ymarfer mawr "Cydweithio dros Blant a'u Teuluoedd" yr union angen hwn i fynd i'r afael â phroblemau yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd mor hir yn ôl â 1975. Cydnabyddir erbyn hyn ei bod yn hollbwysig rhoi cychwyn da mewn bywyd i bob un o'n plant – ond nid felly mae cymdeithas yn gweithredu.

Mae'n bwysig cydnabod hefyd nad hwn yw'r UNIG gyfle i wneud ymyriadau sy'n newid bywyd. Mae gwaith ymchwil wedi dangos hefyd bod adegau eraill yn ystod bywyd person ifanc – ac ym mywyd oedolyn, yn enwedig oedolyn ifanc – pan fydd ymyriadau yn gallu cael effaith fawr. Dangoswyd bod datblygu arferion cymdeithasol a dylanwad cyfoedion a datblygiad ymennydd y glasod yn berthnasol iawn. Mae a wnelo hefyd â mantra'r heddlu y dylid "sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif" a chysyniad y gwasanaeth carchardai o "ymyriad pum munud".

Mae'n ddigon posibl y bydd ymyriadau yn y grŵp 18-25 oed, sef oes y troseddu mwyaf, yn hynod arwyddocaol i genedlaethau'r dyfodol. Gall ymddangos yn rhy hwyr i newid bywyd unigolyn nad yw wedi cael cymorth yn ystod y mil diwrnod cyntaf, ond nid yw'n rhy hwyr i blentyn yr unigolyn hwnnw. Mae ymyriadau megis y rhaglen Pathfinder i Ferched a chamau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan y Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc eisoes yn gwneud gwahaniaeth sylweddol.

Mae dameg blismona y mae'n werth ei hystyried yma: Mae Peter Vaughan yn aml wedi dweud bod yr heddlu yn teimlo eu bod

yn tynnu pobl o'r afon er y byddai'n gwneud synnwyr i gymdeithas eu hatal rhag neidio i mewn i fyny'r afon.

Mae hynny'n sicr wrth wraidd ein dull o weithio mewn partneriaeth i ymyrryd yn gynnar. Fodd bynnag, os yw'r heddlu yn tynnu pobl o'r afon o dan y gored, mae'n gwneud synnwyr rhoi rhywun â bwi achub a rhaff ychydig uwchben y gored **yn ogystal â** cheisio eu hatal rhag neidio i mewn yn y lle cyntaf. Mae bywyd yn flêr, a gofynnir i'r heddlu ddelio â rhai o oblygiadau mwyaf blêr y ffaith syml honno. A dyna pam rydym am gysylltu'r cysyniad o ymyrryd yn gynnar ag ymarferoldeb gweithredu buan a chadarnhaol.

Dyna'r dull gweithredu sydd wedi helpu i leihau trais ar ein strydoedd. Pan ddaeth yr Athro Jonathan Shepherd i'm gweld yng nghanol y 1990au, ei uchelgais oedd lleihau nifer y bobl yr angen iddo eu trin drwy ailadeiladu eu hwynebau ar ôl digwyddiad treisgar. Aeth ati i ddadansoddi'r ffeithiau ynglŷn â digwyddiadau treisgar, gan gynnwys amser a dyddiad a lleoliad ac unrhyw offer neu arfau a ddefnyddiwyd. Drwy'r dadansoddiad hwnnw fe'i gwnaed yn bosibl i'r heddlu a'i bartneriaid ymyrryd yn yr economi liw nos i atal a lleihau risg a niwed.

Mae hyfforddiant ynglŷn â ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed a roddir i staff drysau ac eraill yn Abertawe wedi helpu i atal achosion o drais ac ymosod. Ar wahân i'r budd i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddioddefwyr, mae goblygiadau achosion o'r fath yn rhoi pwysau enfawr ar y gwasanaeth iechyd ac ar allu ymchwiliadol yr heddlu – heb sôn am yr amser a'r arian sydd ynghlwm wrth fynnu cyfiawnder drwy brosesau heriol a biwrocraidd y llysoedd.

O ran cam-drin domestig, gwyddom fod dioddefwyr yn profi 35 o achosion ar

gyfartaledd cyn eu bod yn rhoi gwybod amdano i'r heddlu ac ni fydd rhai byth yn gwneud hynny. Felly, rydym yn buddsoddi cryn dipyn mewn hyfforddiant i feddygon teulu, bydwagedd a staff meddygol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys fel y gallant adnabod pobl a all fod yn ddioddefwyr trais domestig yn well a'u cyfeirio at gymorth a diogelwch lawer yn gynt. Dros y misoedd sydd i ddod, byddwn yn cyflwyno hyn i landlordiaid cymdeithasol a sefydliadau addysg uwch.

Nid yw'r rhain yn enghreifftiau o "ymyrryd yn gynnar" yn ei ystyr fanwl gywir ond maent yn sicr yn gynt na'r arfer traddodiadol o aros tan ar ôl digwyddiad cyn rhoi help llaw. Mae atal y clwy yn sicr yn well na'i wella – hyd yn oed os nad yw'n hoelio sylw yn y wasg nac ar y teledu.

A dangoswyd bod llawer o agweddau eraill ar ymyrryd yn gynnar a gweithredu buan a chadarnhaol yn gweithio.

- Dangosodd "Damcaniaeth y Ffenestri Toredig" os nad ydych yn mynd i'r afael â mân broblemau yn y gymdogaeth – o sbwriel i iaith fras – mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth ac mae camymddwyn yn troi'n droseddu ac anhrefn ac yn mynd yn alw cynyddol ar bob gwasanaeth.
- Mae Timau Troseddwy'r Ifanc wedi dangos y gallant leihau nifer yr achosion o aildroseddu'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall drwy ateb syml, sef gwneud rhywbeth yn union ar ôl trosedd gyntaf yn hytrach na gohirio'r ymyriad tan ar ôl proses hirfaith yn y llys.

Mae digon o dystiolaeth bod problem a esgeulusir yn un sy'n tyfu a'i bod yn werth "lladd gwŷd yn ei febyd". Bydd egwyddor cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn,

ond wrth i ni edrych ar y cyfnod heriol o'n blaen o 2016 i 2021, wrth wraidd ein rhaglen newid bwriadwn gymhwyso...

...model Heddlu De Cymru o ymyrryd yn gynnar a gweithredu buan a chadarnhaol

Rydym bellach wedi ymgymryd â chryn dipyn o waith i nodi'r gofynion sy'n cymryd cymaint o amser yr heddlu. Amcangyfrifir nad yw cymaint ag 89% o'r galwadau i'r heddlu yn ymwneud â throseddu nac anhrefn. Rydym wedi nodi'n glir na fydd Heddlu De Cymru yn rhoi'r gorau i blismona cymunedol – yn wir bwriadwn weithio hyd yn oed yn agosach nag erioed o'r blaen gyda'r gymuned yn ystod y cyfnod anodd hwn o "Gyni Cyllidol".

Ers 2010, mae'r toriadau i adnoddau'r heddlu ar y lefel leol wedi arwain at ostyngiad gorfodol yn nifer Swyddogion yr Heddlu o 3,400 i 2,800, ac er ein bod bellach yn llwyddo'n araf i gynyddu eu niferoedd er mwyn ymateb i heriau newydd, ni allwn ddisgwyl o ddifrif i'n swyddogion a'n haelodau

o staff barhau i ymdopi â gofynion cynyddol - felly mae'n rhaid i ni weithio gyda'r gymuned er mwyn lleihau'r galw ac er mwyn sicrhau y caiff adnoddau prin eu canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i'r gymuned tra'n diogelu'r unigolion mwyaf agored i niwed.

A bydd hyn fwyaf effeithiol pan nodwn y camau a fydd yn lleihau'r galw i asiantaethau eraill hefyd. Er enghraifft, gofalodd y Man Cymorth yn Abertawe am fwy na 1,000 o unigolion a oedd yn agored i niwed ac unigolion meddw yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Ar bob un o'r achlysuron hyn, cafodd taith ambiwlans ei hosgoi – gan alluogi adnoddau ambiwlans sydd o dan bwysau mawr i ddelio â phobl sâl iawn a phobl wedi'u hanafu. Gwnaeth hynny hefyd leihau'n sylweddol nifer y bobl yr oedd angen iddynt fynd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Ac yn lle swyddogion yr heddlu yn gorfod aros gyda pherson a oedd yn agored i niwed nes bod yr ambiwlans yn cyrraedd, roeddent yn gallu dychwelyd i'r strydoedd gan helpu i gadw'r heddwch ac atal pethau drwg rhag digwydd.



Cyflawnwyd hyn drwy'r ymrwymiad ardderchog gwirfoddolwyr sy'n fyfyrwyr a St. John Cymru.

Ymyrryd yn gynnar neu "bron yn rhy hwyr"? Efallai mai ymyriad ychydig uwchben y gored ydyw...

Felly mae model plismona Heddlu De Cymru o ymyrryd yn gynnar a gweithredu buan a chadarnhaol yn dechrau drwy weithio gyda'n partneriaid a chyda'r gymuned er mwyn nodi problemau'n gynnar ac yn gyflym, gyda'n gilydd. Yna byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddatrys y broblem ar gam cynnar gyda'n gilydd – gan leihau'r galw ar yr heddlu ac ar wasanaethau eraill, a gwneud ein cymunedau'n ddiogel.

Felly yn lle gadael y cyfrifoldeb am atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn nwylo'r rhai sy'n gweithio gyda'r grŵp oedran hwnnw, rydym o'r farn ei bod yn hollbwysig ymyrryd yn gynharach dros einioes teuluoedd a chymunedau ar gyfer nifer fawr o faterion. Mae'n ddigon posibl y bydd ymyrryd pan fydd rhywun yn y grŵp 18-25 oed yn cyflawni trosedd gyntaf yn berthnasol i brofiadau plentyndod plentyn neu blant.

Mae enghreifftiau o ddull ymyrryd yn gynnar De Cymru eisoes yn cael eu datblygu:

- Mae'r Comisiynydd wedi ariannu'r rhaglen Pathfinder i Ferched yng Nghaerdydd, sy'n ceisio ymyrryd yn gyflym ar ôl trosedd gyntaf er mwyn ymdrin ag unrhyw broblemau personol ac osgoi rhagor o droseddau.
- Mae'r rhaglen Pathfinder i Ferched eisoes wedi cael ei hymestyn i Ferthyr a Phontypridd a'r arwyddion yw y bydd yn llwyddiannus ac yn gost-effeithiol.
- Addaswyd y model yn llwyddiannus er mwyn creu MASH i'r brifddinas, wedi'i leoli yng Ngorsaf Heddlu Bae Caerdydd. Gwneir

cynnydd hefyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

- Rydym wedi adolygu rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu – gyda chynlluniau bellach i fireinio'r gallu i nodi problemau'n gynnar, cyfathrebu â phobl ifanc yn well, a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i rymuso'r gymuned, yn hytrach na dim ond gwneud pethau dros y gymuned, a gweithio gyda Citizens Cymru i feithrin effeithiolrwydd Gwarchod Cymdogaeth a Grwpiau Trigolion.
- Rydym yn ymwybodol o'r angen i ymgysylltu'n gadarnhaol â phobl ifanc a'u grŵp cyfoedion y tu allan i addysg ffurfiol ac am weithgareddau, gan gynnwys cerddoriaeth, chwaraeon a theatr sydd wedi cael eu darparu yn y gorffennol gan wasanaeth ieuenctid ag adnoddau da ac sydd wedi'i werthuso'n dda.
- Cymerir camau i ddatblygu ac ehangu Gwirfoddolwyr Ifanc Heddlu De Cymru, gan alluogi pobl ifanc yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig i gymryd rhan a rhoi gwasanaeth i'r gymuned – gan hyrwyddo Gwobr Dug Caeredin, sgiliau cymorth cyntaf drwy St. John Cymru a sgiliau a phrofiadau eraill sy'n ychwanegu at fywyd.
- Mae Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru yn rhoi grantiau bach lle mae'r heddlu yn ymgysylltu fwyaf â phobl ifanc i helpu mentrau lleol a fydd yn cynnig opsiynau gwell iddynt.
- Rydym yn adnewyddu gwaith swyddogion yr heddlu mewn ysgolion ac yn cysylltu eu gwaith yn agosach â'r tîm plismona lleol – gan wneud defnydd da o fenter arall a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i roi ein pobl ifanc ar lwybr cadarnhaol mewn bywyd.

Ac mae'r ffordd rydym yn gweithredu yn adleisio'r polisïau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru gryn dipyn.

Er nad yw plismona wedi'i ddatganoli, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wahodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl i ymuno - ac rydym wedi hysbysu'r Gweinidog ein bod yn bwriadu mabwysiadu'r dull gweithredu eangfrydig hwn yn gynnar. Ymyrryd yn gynnar a gweithredu buan sy'n cynnig y ffordd orau i ni sicrhau'r dyfodol gorau i'n pobl ifanc ac mae'r holl nodau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddeddfwriaeth yn berthnasol. Hon fydd ffocws y ffordd rydym yn gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol ac yn defnyddio ac yn buddsoddi'r adnoddau sydd ar gael. Efallai mai'r enghraifft orau o'n dull cydgysylltiedig yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Heddlu De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n gydnabyddiaeth gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a chan Gadeirydd a Phrif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y materion y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch cymunedol ac iechyd: gall trais, yfed gormod o alcohol, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl arwain at broblemau cynyddol o ran iechyd a threfn gyhoeddus - ond os cânt eu trin yn briodol

drwy ymyrryd yn gynnar mae modd osgoi canlyniadau niweidiol y ddau i'r rhai dan sylw ac i ddioddefwyr posibl yn ogystal â'n holl wasanaethau cyhoeddus.

Mae'n amlwg na allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain, ond drwy geisio cydweithredu â nifer o gyrff cyhoeddus eraill - yn ogystal â sefydliadau gwirfoddol a'n cymunedau - rydym nid yn unig yn dweud "dewch i'n helpu" ond rydym hefyd yn dweud "gadewch i ni eich helpu chi - a gadewch i ni helpu ein gilydd".

Yn 2014, cafodd Heddlu De Cymru ganmoliaeth fyd-eang yn ystod uwchgynhadledd NATO. Ein huchelgais ar gyfer y dyfodol yw cael yr un gydnabyddiaeth ar gyfer dull gweithredu Heddlu De Cymru o Ymyrryd yn Gynnar a chymryd camau di-oed - wedi'i osod o fewn cyd-destun trefniadau effeithiol ar gyfer Gweithio mewn Partneriaeth - gan ei fod, yn syml, o fudd i'n cymunedau.



Y Gwir Anrh Alun Michael YH

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru



Peter Vaughan QPM

Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru



Atodiad 3: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Wrth wraidd Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu mae'r gred "gyda'n gilydd gallwn gyflawni mwy". Bu hwn yn ddull gweithredu sylfaenol ers i mi gael fy ethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac rwyf wedi ceisio meithrin cydberthnasau â phartneriaid drwy ardal gyfan Heddlu De Cymru fel y gallwn ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau ar sail fwy effeithiol, integredig a chynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

(Cymru) yn rhoi cyfle i atgyfnerthu'r dull gweithredu hwn. Rydym yn wynebu cyfnod o ansicrwydd gyda nifer o heriau a fydd yn cael effaith ar bob asiantaeth yng Nghymru a dim ond os wynebwn yr heriau gyda'n gilydd y gallwn lwyddo.

Dyna pam y mae Heddlu De Cymru yn ymrwymedig i fabwysiadu egwyddorion a nodau'r Ddeddf yn gynnar. Er ei fod y tu allan i

Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu Priorities	Nodau Lles						
	Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru Iachach	Cymru sy'n fwy Cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Byddwn yn gostwng ac yn atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cysylltu â'n cymunedau, eu cynnwys a'u hysbysu		✓			✓	✓	
Byddwn yn gweithio i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau	✓	✓	✓	✓	✓		
Byddwn yn gwario'ch arian yn ddoeth er mwyn diogelu plismona yn eich cymuned	✓	✓		✓	✓		✓
Byddwn yn sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol leol yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon, gan ddiwallu anghenion dioddefwyr a herio troseddwy	✓		✓	✓	✓		✓
Byddwn yn cyfrannu at y Gofyniad Plismona Strategol ac yn plismona digwyddiadau mawr yn llwyddiannus					✓	✓	✓

gylch gwaith Lywodraeth Cymru, bydd yr heddlu yn chwarae rôl sylweddol o ran gwireddu'r weledigaeth gyffredin a amlinellwyd yn y ddeddfwriaeth, ac mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn cydnabod bod yn rhaid i ni chwarae ein rhan i wireddu'r weledigaeth honno.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau bod ein blaenoriaethau yn gyson â blaenoriaethau awdurdodau lleol. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau bod ein blaenoriaethau yn gyson â blaenoriaethau awdurdodau lleol ac rydym yn troi'r gobaith a fuddsoddwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn realiti wrth i ni roi rhaglen waith yn seiliedig ar fuddiannau i'r ddwy ochr ar waith.

Mae'r Ddeddf yn adlewyrchu fy egwyddorion sylfaenol o ymyrryd yn gynnar ac atal gydag uchelgais o geisio gostyngiadau cynaliadwy hirdymor mewn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â cheisio'r cymorth mwyaf effeithiol i ddioddefwyr a throseddwr fel ei gilydd. Rydym hefyd yn cyflymu ein gwaith ar leihau cam-drin domestig a rhywiol, a lefel troseddau treisgar yn yr economi liw nos, fel y gallwn atal niwed nawr ac yn y dyfodol, neu hyd yn oed ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae'r tabl isod yn amlinellu sut y gall y blaenoriaethau yn y cynllun ategu'r nodau llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio sefydlu "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n gosod gofyniad ar gyrff cyhoeddus i ystyried effaith eu prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n rhoi pwys mawr arno ac

rydym yn benderfynol bod ein prosesau gwneud penderfyniadau yn pwysleisio'r angen am atebion cynaliadwy i'r heriau a wynebwn, gan adlewyrchu pum maes egwyddor datblygu cynaliadwy, sef:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithredu
- Cynnwys

Bydd y pum maes hyn nid yn unig yn llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau, ond byddant hefyd yn sail i'r ffordd rydym yn rhyngweithio â'n partneriaid. Rhan bwysig o hyn fydd y cyfle i ddylanwadu ar gam cynnar yn y broses o ddatblygu cynlluniau Llesiant awdurdodau lleol, yn ogystal â'n hymwneud â sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y rhain yn chwarae rhan allweddol o ran datblygu a darparu gwasanaethau cynaliadwy i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol De Cymru. Edrychaf ymlaen at weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yn ogystal â'n partneriaid, wrth i ni barhau i atgyfnerthu'r ffordd rydym yn gweithio mewn partneriaeth a nodi cyfleoedd i ddatblygu ein gwaith gyda'n gilydd.



De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales



Cynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu **2017-2021**